~ www.ecorwyddfa.co.uk ~

# ECO'r Wyddfa

Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 480 Hydref 2019 Pris:£1



# Cyfarfod Hanesyddol yn Llanberis

**Noson fawr! Ar nos Fercher 4ydd o Fedi yn y Ganolfan, Llanberis cynhaliwyd cyfarfod cyntaf erioed cangen newydd Merched y Wawr, Llanberis a Nant. Daeth criw bach da at ei gilydd. Croesawyd pawb gan y llywydd, Marian Jones. Wedi 'r baned aeth Ann Parry ymlaen i gyflwyno Mrs Sioned Hughes, siaradwraig y noson. Mae Sioned yn rhedeg busnes gwerthu deunydd y "Body Shop" a chafwyd cyflwyniad diddorol a hwyliog ganddi.**

Diolch i Mrs Mattie Hughes a Mrs Helen Sharp am drefnu'r raffl. Diolch hefyd i bwyllgor y Ganolfan am gael defnyddio'r ystafell. Erbyn i chi dderbyn y rhifyn hwn o'r "Eco" bydd yr ail gyfarfod wedi bod ers yr ail o Hydref. Mae croeso cynnes i aelodau newydd. Cysylltwch efo Marian Jones neu Ann Parry.

## Dyfodol Eco'r Wyddfa

**Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor Eco'r Wyddfa nos Iau, 19eg o Fedi. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd y cwestiwn o olyniaeth swyddi swyddogion y papur. Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf yr Eco yn 1976, sef 43 o flynyddoedd yn ôl, ac mae rhai o'r swyddogion a benodwyd yn ôl yn 1976 yn dal i weithio ar y papur! Dyna 43 o flynyddoedd o ymroddiad gwirfoddol, di-flino a ffyddlon i'r Eco.**

Roedd chwech o swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod o'r pwyllgor, a phob un ohonom ni yn ein saithdegau! Cytunwyd yn y cyfarfod bod argyfwng yn wynebu'r Eco, gan fod sawl un erbyn hyn yn mynegi'r awydd i roi'r gorau i'w cyfrifoldebau.

Cytunwyd i alw cyfarfod cyhoeddus rywbryd cyn y Nadolig er mwyn cael trafodaeth agored a gonest ynglŷn â dyfodol y papur. Bydd manylion pellach am y cyfarfod yn rhifyn Tachwedd o'r Eco. Mae un peth yn gwbl amlwg, rhaid cael gwaed ifanc a newydd yn y rhengoedd neu efallai mai Nadolig 2019 fydd y Nadolig olaf i Eco'r Wyddfa!

Tony Elliott

Cadeirydd Pwyllgor Eco'r Wyddfa

ISSN 2516-7235

9 772516 723001 >

# ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

**RHIF 480**
**Hydref 2019**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911


## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2019

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Tachwedd | 20fed Hydref | 1af Tachwedd | Llanrug |
| Rhagfyr | 17eg Tachwedd | 29ain Tachwedd | Llanrug |


**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i Dafydd Whiteside Thomas Bron y Nant, Llanrug 01286 673515 ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU 07798552238 tonyelliott17@yahoo.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**GOLYGYDD YR IFANC**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Hafan, Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Rhian Elin George, Swn yr Engan, Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**TREFNYDD DOSBARTHU**
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen. lowriceiriog@hotmail.co.uk
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:**
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)
**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com
**PENISARWAUN:** Katie Williams, Ty'n Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


## LLYTHYRAU

Annwyl gyfaill,

Rydyn ni'n ffyddiog bod modd i ni ennill pwerau darlledu i Gymru dros y flwyddyn nesaf. Wedi i ni gyfarfod gyda'r Prif Weinidog cyn yr Haf, mae Llywodraeth Cymru bellach yn adolygu ei safbwynt ar y mater dros y misoedd nesaf.

Er mwyn sicrhau buddugoliaeth o'r pwys mwyaf i'r Gymraeg a democratiaeth Cymru, rydyn ni'n trefnu cynnal nifer o stondinau stryd ar ddydd Sadwrn 28ain Medi ac ar ddydd Sadwrn 9fed Tachwedd er mwyn gwneud yr achos dros ddatganoli pwerau darlledu i Gymru, ac yn annog aelodau i gymryd rhan.

A fyddai modd i chi drefnu neu ddod i gynorthwyo ar stondin? Os oes awydd gyda chi i chwarae rhan yn symud yr ymgyrch ymlaen, allwch chi roi gwybod i ni drwy e-bostio post@cymdeithas.cymru neu 01970624501?

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth.

Cofion cynnes,
Heledd Gwyndaf. Grŵp Digidol, Cymdeithas yr Iaith

---

Annwyl olygydd,

Neges sydd gennym ar gyfer y beirdd ymysg eich darllenwyr. Yr ydym (Cyhoeddiadau'r Stamp) yn bwriadu rhoi blodeugerdd o farddoniaeth at ei gilydd yn 2020, fydd yn cynrychioli yr ystod eang o farddoniaeth sy'n cael ei hysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg ar y foment hon. Mae hon yn fenter gyffroes, a fydd yn cynnwys gwaith gan brifeirdd a beirdd gwlad fel eu gilydd, beirdd ifanc ac aeddfed, beirdd gyda phentwr o gyfrolau i'w henw, a beirdd sy'n cyhoeddi am y tro cyntaf un.

Rydym yn fenter gyhoeddi annibynnol, yn debyg iawn i'r papurau bro. Nid ydym yn derbyn nawdd nac arian cyhoeddus, ond mae ein llyfrau a'n cyfrolau i'w cael mewn siopau Cymraeg ar draws y wlad. Bydd y gyfrol hon felly yn cael ei hariannu gan yr elw o werthiant cyfrolau blaenorol, a thrwy ragarchebion.

Ein gobaith yw derbyn gwaith gan ystod mor eang a phosib o gyfranwyr, felly dyma wahodd eich darllenwyr i gyflwyno 1-3 o gerddi ar gyfer cael eu cynnwys yn y gyfrol. Gofynnwn eu bod yn gyrru unrhyw gerddi i'w hystyried atom erbyn Rhagfyr y 31ain, 2019, a byddwn yn ymateb gyda phenderfyniad golygyddol yn y flwyddyn newydd (erbyn mis Chwefror).

Mae mwy o wybodaeth i'w chael o'n gwefan (ystamp.cymru) neu trwy gysylltu'n uniongyrchol. Yr ebost ydi blodeugerdd2020.ystamp@gmail.com, neu i rai sydd well ganddyn nhw roi gwaith i'r dyn post: Y Stamp, Boderwyddon, Carmel, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7AN.

Buasem yn ddiolchgar ofnadwy petai chi'n rhannu'r neges hon gyda'ch darllenwyr.

Diolch o galon
Grug Muse, ar ran Cyhoeddiadau'r Stamp.

---

Annwyl Olygydd,

Tybed os gan unrhyw un o'ch darllenwyr atgofion yn ymwneud â Phont Britannia, yn enwedig y tân ym 1970 a'r ail-adeiladu a ddilynodd?

Mae Rondo Media, cwmni cynhyrchu o Gaernarfon, yn chwilio am ffilm a lluniau o Bont Britannia, Pont Menai a'r ardaloedd cyfagos o'r 1960au hyd heddiw ar gyfer rhaglen ddogfen i S4C a'r BBC sy'n dathlu hanes Pont Britannia.

Oes gennych chi unrhyw luniau neu ffilmiau cartref o'r cyfnod? Gallai'r lluniau fod o gychod ar y culfor, lluniau'r tân, yr ailadeiladu neu ddiwrnod agoriadol y lôn ar draws y bont. Unrhyw beth sy'n rhoi teimlad o le ac amser.

Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn siarad â phobl sydd wedi bod yn rhan o'r bont dros y blynyddoedd, yn enwedig llygad-dystion i'r tân a phobl a fu'n rhan o'r ailadeiladu rhyfeddol.

Os all un o'ch darllenwyr chi ein helpu ni, mae croeso iddyn nhw gysylltu â ni arbritannia@rondomedia.co.uk neu 01286 675722.

Yr eiddoch yn gywir,
Bedwyr Rees

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£50 - er cof am eu mab Kevin Wyn Jones - Meirion, Catherine a'r teulu

£20: Er cof am Linda Hughes, Fron Olau, gan ei phriod a'i phlant, Bryn, Gareth a Karen; Er cof am Gwilym Rees Parry gan Gareth ac Alwena.

£10: Er cof am Elizabeth Mary Jones (Betty Plas Coch), Llanberis.

£5 - Enid Williams, 15 Rhos Rug, Llanrug


WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574


ECO'r Wyddfa

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**

## Parhad LLYTHYRAU

Siarad.

Siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gyda'i gilydd

# Cynllun Siarad 2019 - 2020

Oes ganddoch chi awran neu ddwy y mis i'w sbario i helpu dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg?
Pam na wnewch chi ymuno â'r cynllun Siarad? Nod y cynllun ydy darparu cyfleoedd siarad i ddysgwyr fagu hyder a rhuglder ac i gynorthwyo dysgwyr i gymhathu yn y gymuned leol neu mewn cymdeithasau lleol.
Ella byddwch chi'n cael profiad tebyg iawn i'r siaradwr yma...
"Mae pethau yn mynd yn dda iawn gyda'r cynllun [...] wedi cyfarfod dair gwaith yn barod, fel arfer mewn caffi gwahanol i gael cinio bob ryw bythefnos, rydym i fod i gyfarfod dydd Mercher nesa. Rydym yn mwynhau cwmni'n gilydd ac yn sgwrsio'n ddibaid nes y bydd hi wedi blino'n lan! [...] Rydym eisoes wedi trafod mynd efo'n gilydd am y diwrnod i'r Eisteddfod Genedlaethol, ac mae'n awyddus iawn i wneud hynny. Rwyf yn rhagweld y byddwn yn parhau yn ffrindiau da wedi i'r cynllun ddod i ben."

Be' sy'n ddisgwyliedig?
• Gofynnir am ymrwymiad o 10 awr gan bob pâr – y dysgwyr a'r siaradwyr. Gallwch ddefnyddio'r amser i gyfarfod dros banad neu ginio. Croesawir hefyd defnyddio'r 10 awr i fynychu digwyddiadau ar y cyd e.e. mynychu perfformiad drama, cyfarfodydd grwpiau cymdeithasol neu mynd i wylio chwaraeon.
Be' nesa'?
Os ydych chi'n awyddus i ymuno'n y cynllun, cysylltwch ag Eluned Croydon e.croydon@bangor.ac.uk / 01248 383 928. Yna, mi fyddwn ni'n gwneud trefniadau i'ch paru ac yn gwneud pob ymdrech i'ch paru â dysgwr o'r un ardal/oedran/rhyw a diddordebau.
Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y cynllun drwy ymweld â'r wefan hon: https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad/
Helpwch ni i greu miliwn o siaradwyr!

## Gwobr y Faner Werdd i Barc Padarn




Mae Parc Gwledig Padarn yn Llanberis wedi derbyn gwobr y Faner Werdd eto eleni, sydd yn dynodi marc ansawdd rhyngwladol parc neu fan gwyrdd o ansawdd.
Mae'r parc wedi'i leoli mewn 800 acer, ac yn cynnig croeso a chyfle i drigolion Gwynedd ac ymwelwyr fwynhau golygfeydd trawiadol a godidog ardal Llanberis.
Ceir llu o atyniadau yn yr ardal, sy'n cynnwys Ysbyty'r Chwarel - amgueddfa sy'n adlewyrchu bywyd ysbyty yn y 19eg Ganrif, rheilffordd Llyn Padarn, cwrs rhaffau ac ysgolion antur i blant ac oedolion, canolfan chwaraeon dŵr Padarn gyda'r Amgueddfa Lechi Cenedlaethol hefyd wedi ei lleoli gerllaw.
Dywedodd y Cynghorydd, Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros ddatblygu'r Economi: "Rydym yn hynod falch fod Parc Padarn wedi sicrhau'r faner werdd eto eleni. Mae'r wobr yma'n dangos sut mae Gwynedd yn cymryd balchder yn y ffaith bod gennym y parc hyfryd hwn sydd yn cynnig profiad unigryw i drigolion Gwynedd ac ymwelwyr.
"Mae sicrhau'r statws hwn yn gydnabyddiaeth o ymroddiad a gwaith caled y staff sydd yn gweithio yno, ac yn arwydd amlwg fod y Parc yn cynnig profiad anhygoel."
Cyflwynir rhaglen Gwobr y Faner Werdd yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol, Cadwch Gymru'n Daclus, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Caiff ei beirniadu gan arbenigwyr mannau gwyrdd, sydd yn gwirfoddoli eu hamser i ymweld â safleoedd sy'n ymgeisio a'u hasesu yn erbyn wyth maen prawf llym, yn cynnwys safonau garddwriaethol, glendid, rheolaeth amgylcheddol a chyfranogiad cymunedol.
Mae Parc Gwledig Padarn yn agored yn ddyddiol drwy gydol y flwyddyn.

# Yn ystod y mis aeth heibio....

• Datgelwyd fod dros £8,000 o ddirwyon wedi eu casglu gan Gyngor Gwynedd am barcio anghyfreithlon ym Mhen y Gwryd a Phen Gorffwysfa dros benwythnos y Pasg eleni. Ac y mae'r nifer o ymwelwyr sy'n heidio i gopa'r Wyddfa yn peri pryder i awdurdodau'r Parc Cenedlaethol. Ar sawl achlysur roedd rhesi hir yn aros i gyrraedd y copa – ac nid yn ystod y dydd yn unig. Tybed beth fydd y ffigurau erbyn diwedd y tymor gwyliau?
• Mae'n debyg nad oedd yn syndod o ddeall fod cynnydd sylweddol mewn marwolaethau dianghenraid o ganlyniad i gamddefnydd o gyffuriau drwy'r wlad yn gyffredinol. Ond roedd yn fwy o syndod deall nad problem 'ddinesig' yw hon bellach. Mewn ystadegau a ryddhawyd gan Heddlu Gogledd Cymru, Gwynedd wledig oedd ar frig y tabl am y nifer uchaf o ddeliwyr mewn cyffuriau i gael eu harestio – bron i saith gant dros y pedair blynedd ddiwethaf. A'r hyn sy'n ddychryn yw fod rhai ohonynt mor ifanc a thair-ar-ddeg oed.
• Cyngor Gwynedd oedd y cyngor sir cyntaf yng Nghymru i gefnogi annibyniaeth, ac y mae tri o gynghorau cymuned y fro wedi gwneud hynny hefyd, sef Llanberis, Llanrug a'r Waunfawr. Daeth y term "indy-curious" i'n geirfa, ac y mae hyd yn oed y Blaid Lafur yng Nghymru yn cydnabod y ffenomenon.
• Mae'r gwaith ar ffordd osgoi Bontnewydd/Caernarfon yn symud ymlaen, a rhaid canmol y contractwyr am beidio amharu ar drafnidiaeth ar y prif ffyrdd sy'n arwain am Gaernarfon. Adeiladwyd pont dros nos ger Bontnewydd er mwyn hwyluso'r gwaith, a chreu cyn lleied o anhwylustod a phosib. Does ond gobeithio y bydd y gaeaf sydd ar ddod yn garedig o ran tywydd.
• Rhywbeth i edrych ymlaen amdano i bawb dan hanner cant oed? Tybed? Y llywodraeth yn bwriadu codi oedran pensiwn i 75; yr uchaf yn y byd fel y mae pethau ar hyn o bryd. Teg gofyn a'i cynllun yw hwn i ddileu pensiwn gwladol a gorfodi pawb i dynnu allan gynllun pensiwn preifat.
• Cafwyd Gŵyl y Banc Awst poethaf erioed ers cadw cofnodion tywydd, a chafwyd dyddiau poeth yn ystod Medi hefyd. Heidiodd ymwelwyr i'r fro. Roedd ardal y lagŵns yn Y Glyn, Llanberis fel pot jam i wenyn, yn cynnwys ieuenctid a theuluoedd lleol yn ogystal â'r ymwelwyr. A daeth a'i phroblemau hefyd, yn enwedig sbwriel. Dim digon o finiau yn ôl rhai. Eraill yn dadlau mai esgus i gael gwared ac unrhyw fath o sbwriel oedd ei adael wrth ymyl biniau llawn. Toiledau yn cael eu cau yn gynnar, a'r torfeydd yn parhau yno hyd yn hwyr y nos. Rhai'n 'gwersylla' yn rhad ac am ddim mewn ceir a faniau – ac unlle i gael gwared a charthion. Ac yna, gosodwyd 'barrier' ar draws y ffordd yn arwain yno. Croeso gan rai a chwynion gan eraill, a'r cyfryngau cymdeithasol yn boeth! Diffyg toiledau, a pharcio dros nos oedd y broblem yn yr Allt Ddu, Dinorwig hefyd – a sbwriel unwaith eto.
• Does dim posib cadw i fyny a'r holl newidiadau dyddiol ym myd gwleidyddiaeth: mae hyd yn oed y papurau dyddiol yn cael trafferth, heb son am fisolyn fel hwn. Ond mae un peth yn sicr, mae mis cythryblus iawn o'n blaenau hyd nes daw diwrnod "do or die" Boris Johnson.
• Ac aeth diwrnod Ffair Nant heibio – angladd yr haf yn ôl traddodiad. Mynd heibio hefyd wnaeth Gŵyl Sant Mihangel a'r diafol yn poeri ar y mwyar duon. Ydi, mae'r gaeaf ar ein gwarthaf.

## Ysgol Llanrug





Diolch i Gwawr o'r gwasanaeth tan am ddod atom i roi sgwrs i Blwyddyn 2 a 5 ar ddiogelwch tan yn y cartref.









Dyma ni, pedwar deg o  blant y dosbarth Meithrin ar eu diwrnod cyntaf.

Criw Blwyddyn 6 wedi mwynhau Glan Llyn ac wedi cael llawer i antur!

**Merched y Wawr** Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Nan Humphreys, ein Llywydd, a chychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Roedd pawb yn hynod falch o weld Menna yn bresennol sy'n amlwg yn gwella'n dda.

Llongyfarchwyd Mari Deiniol a Gwyn a hefyd Rachel ac Iwan ar eu priodas. Llongyfarchiadau hefyd i Mair ar ei herthygl am Haf Thomas yng nghylchgrawn Y Wawr ac ar lwyddiant Nanw, wyres Mair, yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Dymunwyd gwellhad buan i Pat, Avril ac Ann Lloyd ar ôl eu damweiniau. Diolchwyd i bawb a gefnogodd Benwythnos Breswyl mor lwyddiannus ym Mangor. Llongyfarchwyd Ann Ifans ar dderbyn y Fedal Gee am deyrngarwch i waith yr Ysgol Sul. Llongyfarchiadau hefyd i Linda a Hefin ac i Susan a Hywel ar ddathlu eu Priodas Aur ar Sadwrn, Medi 28ain.

Trefnwyd Taith Gerdded y Rhanbarth mewn cyfarfod yng Ngwinllan Pant Du, Penygroes, gyda Gwennie o Gangen Penygroes, yn arwain taith o gwmpas rhai o chwareli'r ardal, gan orffen ym Mhant Du.

Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan blant sydd wedi elwa o gyfraniad hael gan y gangen tuag at 'Cronfa Cyfle i Bawb', 'Y gwylia gorau...', 'Joio mas draw...' am wyliau yng Ngwersyll yr Urdd fu'r ymateb.

Cynhelir Cwis Hwyl Cenedlaethol nos Wener, Tachwedd 8fed, ym Mhant Du. Diolch i Haf Thomas am ei rhodd hael i gangen Merched y Wawr Llanrug. Ein diolch eleni eto i Pat am y fantolen a rhaglen y flwyddyn.

Y wraig wadd oedd Siân Owen - yn wreiddiol o Foel ger Llangadfan. Astudiodd Gelf, Cymraeg ac Addysg yn y Drindod. Bu'n athrawes yn Ysgol Ardudwy, cyn dod yma i Ysgol Brynrefail ac yna bu'n Athrawes Ymgynghorol yng Ngwynedd cyn ymddeol. Mae wedi dangos ei gwaith yn gyson gyda arddangosfeydd yn y Morlan, Aberystwyth, Llyfrgell Bethesda ac, ar hyn o bryd, yn Storiel Bangor tan Hydref 12fed.

Difyr oedd gweld a chlywed yr hanesion am esiamplau o lechi cerfiedig a luniwyd yn Nyffryn Ogwen. Yn Storiel gwelir hefyd ddyluniadau gwehyddu tecstil a phrintiau cyfoes wedi eu hysbrydoli gan batrymau llechi cerfiedig. Diolchwyd i Siân am noson addysgiadol a difyr ac am ein hannog ninnau i 'chwilio a darganfod' cerrig a llechi cerfiedig sy'n llechu yn y fro chwarelyddol yma.

Diolch i Jean, Margaret, Mair a Megan am y baned. Ar Hydref 8fed edrychir ymlaen am gwmni Wil Aaron yn olrhain hanes Martha Hughes Cannon, Seneddwraig gyntaf yr Unol Daleithiau. Croeso o hyd i aelodau newydd a dysgwyr.

## *Parhad* LLANRUG

**Profedigaeth** Yn 95 oed bu farw Mrs Mona Mai Griffith yn Ysbyty Gwynedd. Roedd newydd adael ei chartref yn 2 Hafan Elan ac wedi symud i Blas Pengwaith, Llanberis. Ond byr iawn o amser gafodd yno. Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys iawn â'i mab Alwyn a'i fab yntau, Rhys, yn eu profedigaeth lem.

**Llongyfarchiadau** a dymuniadau gorau i Macsen Llwyd, y Goedlan, fydd yn dathlu ei ddeunaw oed ar Hydref 13. Mwynha'r dathlu, Macs.

**Diolchiadau** Dymunwn, ar ran teulu Gwilym Rees Parry, Morannedd, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli Gwil. Diolch i bawb fu mor garedig wrtho yn ystod ei waeledd ac i'r rhai gymerodd ran yn y gwasanaeth ar ddydd yr angladd ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof amdano. Mawr yw ein diolch i'r Meddygon a staff Meddygfa Waunfawr am eu gofal tyner ohono.

Diolch i Meinir a Rhys o gwmni Dylan Griffith am drefniadau gofalus a thrylwyr.

**Babis Newydd** Llongyfarchiadau mawr i Bryn ac Angela, London House, ar ddod yn daid a nain i efeilliaid bach Trina a Dean, Ty'n Llwyn, Tan y coed. Eric a Nansi yw enwau'r ddau bach, pob bendith iddynt. Deall bod pawb wedi gwirioni efo nhw wir.

**Profedigaeth** Yn ddiweddar bu fawr Gwilym Jordan. Yn enedigol o Fethel ond wedi byw am flynyddoedd yn Llanrug. Cydymdeimlwn â chi fel teulu. Mae Tracey yn byw yn Nant y Glyn.

Hefyd, ar ôl gwaeledd hir, bu farw Brian Evans, Fferm Pen y Bwlch. Roedd wedi ei fagu yn y blynyddoedd cynnar yn Tŷ Corn, Pontrug. Bu yn heddwas ar hyd ei fywyd gwaith ac wrth ei fodd yn byw yn Pen y Bwlch ar ôl ymddeol.

Anfonwn ein cydymdeimlad i'w wraig, Helen, a'i ddau fab a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

**Gwaeledd** Cofiwn at Hefin Goronwy Jones, 37 Glanffynnon, sydd yn Ysbyty Gwynedd ers wythnosau. Dymunwn wellhad buan i ti, Hefin.

**Clychau'r Grug** Edrychir ymlaen at weld ein gilydd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, bnawn Iau, Hydref 17eg am 1.00 y pnawn.

**Eglwys Sant Mihangel yn y Sefydliad Coffa**

Hydref 6 am 10.00 Diolchgarwch am y Cynhaeaf, gyda lluniaeth a chrefftau. Gwraig wadd fydd yr Archddiacon Mary.

Hydref 21 am 10.00 Cymun Bendigaid.

**Plaid Cymru**

Enillwyr Clwb Cant mis Medi:

1, Geraint Jones, Cwmyglo

2. D A Jones, Llanrug

**Bore Coffi Apel Uned Cancr**

Yn dilyn Bore Coffi a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fedi yn y Sefydliad Coffa, Llanrug gan grwp Apel Uned Cancr a Haematoleg Alaw, pleser yw cael cyhoeddi fod £282 wedi ei gasglu a llawer o ddiolch i bawb a wnaeth ein cefnogi a'n helpu.

Diolch yn arbennig i Haf Thomas, Treceiri am ei chyfraniad o £25 trwy werthu cardiau mae hi yn ei gynllunio

Yn wahanol i 'Awyr Las' mae'r holl arian yn mynd yn uniongyrchol i'r ward ym Mangor a'r llynedd trosglwyddwyd £23,000 gan y grwp i brynu meiroscop arbennig i hwyluso gwaith yr uned

Dyma'r tro cyntaf i'r grwp ddefnyddio'r Ganolfan yn Llanrug i godi arian a gobeithio y cawn ddod eto gyda'r un bwriad y flwyddyn nesaf.

**Capel y Rhos**
**Oedfaon Hydref**

6 – Y Gweinidog, y Parch. Marcus W Robionson

13 – Parch. R.O. Jones

20 – Y Gweinidog


27 – Parch. Dafydd Lloyd Hughes

## *Codi arian er cof*

Am y deuddegfed mlynedd yn olynol ers colli ei annwyl wraig, Yvonne, bu Malcolm Pitts yn codi arian i Uned Gofal Dydd, Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Ac fel yn y gorffennol, roedd y gefnogaeth gan y gymuned ym mro'r Eco a thu hwnt yn arbennig. Mae Malcolm yn beicio a nofio'n rheolaidd gydol y flwyddyn, a'i sialens eleni oedd nofio milltir a hanner ar y tro, ddeg gwaith ym Mhlas Menai. Yna beicio o Blas Menai i Gastell Conwy ac yn ol i Gastell Caernarfon cyn diweddu'r daith ym Mhlas Menai; pellter o 52 milltir. Dymuna Malcolm ddiolch i Darren Brame, Plas Menai a fu'n cadw cwmni iddo ar y daith beics am y deng mlynedd diwethaf, ac i Alwena Leadbitter am ei chwmni dros y ddwy flynedd gyntaf. Mae'n hynod ddiolchgar i deulu, ffrindiau ac eraill am ei gefnogi a'i noddi. Roedd dros £2,000 wedi ei gasglu eleni, a chafodd yr arian ei rannu rhwng Uned Gofal Dydd Ward Alaw a'r Adran Argyfwng yn Ysbyty Gwynedd.







# BETHEL

## LLONGYFARCHIADAU



Bydd llawer o ddisgyblion y pentref yn falch iawn o'u canlyniadau TGAU a Lefel A. Dymunwn yn dda iddynt yn eu camau nesaf boed yn yr ysgol, Addysg Uwch neu Addysg Bellach.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwenllian Griffiths, Stad Eryri ar gael ei hethol yn brif ddisgybl Ysgol Brynrefail. Mae hi mewn olyniaeth nifer o blant Bethel â anrhydeddwyd â'r swydd yn y blynyddoedd diweddar. Un ohonynt oedd Gethin, brawd Gwenllian.

Braf gweld bod Ysgol Brynrefail yn gwobrwyo cynnydd disgybl drwy ymdrech ble dyrfarnir gradd uwch na'r disgwyl gan ddisgybl mewn arholiad. Dyfarnwyd tair gwobr i Ania Hughes, Stâd y Ddôl am ganlyniadau cyffelyb. Roedd dau dlws am ymdrech arbennig mewn Mathemateg ac un ym maes Arlwyo. Da iawn hi, a phob dymuniad da iddi yn dilyn ei chwrs yng Ngholeg Menai, Campws Llangefni.

## MERCHED Y WAWR



Cafwyd agoriad ardderchog i dymor newydd pan ddaeth Meinir Gwilym y gantores a chyflwynwraig draw i gynnal noson. Roedd ei hen daid yn brif arddwr ym mhlasdy Tre- ysgawen, Môn a hynny'n amlwg yn meithrin ei diddordeb mewn garddio. Mae hi bellach wrth ei bodd yn cyd-gyflwyno y rhaglen arddio poblogaidd 'Garddio a Mwy' ar S4C. Brithwyd ei sgwrs am agweddau o arddio gyda chyflwyniad o rai o'i chaneuon mwyaf poblogaidd.

Cafodd y llywydd Mair Read gyfle i longyfarch sawl un. Plant y pentref am eu hymdrechion a llwyddianau mewn addysg ac Eisteddfod,Ysgol Bethel am ganlyniad yr arolwg rhagorol, ac i un o'r cyn-ddisgyblion Bethan Marlow ar ei thraddodi celfydd yn seremoni y Fedal Ddrama.

Bu nifer o'n haelodau yng nghwmni aelodau cangen Llanrug yn cymeryd rhan yng nghwasanaeth y Sul yn ystod Penwythnos Breswyl MYW draw ym Mangor. Cydnabyddwyd eu gwaith graenus mewn llythyr gan Meirwen Lloyd y Llywydd Cenedlaethol. Yn dilyn y gwasanaeth gwnaed casgliad o £700 tuag at elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

Ennillwyd y raffl gan Nan, Gwenan, Mary ac Eirlys a darparwyd y lluniaeth gan aelodau'r pwyllgor.

Yn y cyfarfod nesaf ar Hydref 9ed., disgwylir swyddog o adran Safonau Masnach y Cyngor Sir i drafod 'Scam a Spam'. Croeso i unrhyw aelod newydd ymuno a ni.

**CLWB BRO** Yr is-lywydd Richard Lloyd Jones ddaeth i lenwi bwlch yn y cyfarfod cyntaf. Estynwyd croeso i nifer dda gan gynnwys aelodau newydd. Rhoddwyd braslun o raglen y flwyddyn gan Mary Wyn yr ysgrifenyddes, gyda phwyslais ar amrediad y cyfarfodydd a cyfeirio at y Gwasanaeth Nadoligaidd, y Cinio Nadolig a'r wibdaith diwedd flwyddyn. Digon o sbardun i ddenu mwy o aelodau mae'n siwr.

Testun sgwrs Richard oedd seremoniau cadeirio y bu'n ymwneud â hwy. Cyfeirwyd at gymeriadau a digwyddiadau annisgwyl yn ystod y defodau. Roeddent yn amrywio o ran lleoliad o Landderfel a'r Ffôr yn y gogledd i Felindre a'r Tymbl yn y De. O'r dihafal ddiweddar Mair Penri i Gwilym Griffith, Llwyndyrus a'r unigryw Phyllis o'r Felindre. Darllenodd hefyd ddetholiad o rai o'r cerddi a gipiodd y cadeiriau iddo. Rhoddwyd y diolchiadau gan Llinos , a darparwyd y baned gan Mary a Pat.

Yn y cyfarfod nesaf ar Hydref 1af. bydd yr hanesydd Gerwyn James o Lanfairpwll yn sgwrsio.

**CYDYMDEIMLAD** Cydymdeimlad dwysaf i John, Delyth, Glyn a Bethan a'r teulu estynedig 15, Stad Eryri ar golli gwraig, mam , nain a hen nain annwyl y diweddar Mair Jones. Hoffai'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth yn y golled.

**CROESO ADREF** I Bet Evans, 7 Y Ddôl wedi damwain tu allan i'r cartref yn ddiweddar. Bu rhaid aros cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ond bellach mae wedi dychwelyd adref. Un cam ar y tro Bet!

**DIOLCH** I chwi rieni a staff Ysgol Bethel am eich anogaeth a pharodrwydd i ddanfon y plant draw i'r Ysgol Sul. Roedd gweld y cynnydd mewn rhifau wedi codi calon sawl un. I unrhyw un arall am ymuno cofiwch yr amser, 10am fore Sul yng Nghapel y Cysegr.

**OEDFAON HYDREF** Capel Saron (2pm): 6/10 Dafydd Coetmor Williams 13/10 Seiat 20/10 Islwyn Hughes 27/10 Parch. Richard Gillion (S)

Capel Cysegr (10am) : 6/10 Susan Williams,EFE, ( Oedfa Deulu) 13/10 Gweinidog 20/10 Oedfa Diolchgarwch 27/10 Gweinidog

Capel Bethel ( 10am): 6/10 Alun Williams 13/10 Glyn Owen 20/10 Parch. John Lewis Jones 27/10 Parch. Gwynfor Williams

**EISTEDDFOD BETHEL** Dydd Sadwrn, Hydref 19 yw'r dyddiad pwysig eleni. Mae'r testynau i'w cael draw yn y Post neu gan aelodau'r pwyllgor. Eisioes mae cryn baratoi ac ymarfer ac edrychwn ymlaen am gystadlu brwd yn oedrannau cynradd, uwchradd a'r cystadleuthau agored i oedolion. Fel pob blwyddyn os hoffai unigolion gyfrannu'n arianol at dreuliau yr Eisteddfod bydd Edwina Morris yn falch o dderbyn unrhyw rodd. Eleni penderfynodd y pwyllgor gynyddu gwerth y gwobrau.

**LLONGYFARCHIADAU** I Gwion Owen ein prifathro ar ei ddyweddiad diweddar gyda Lisa Mai o Gaernarfon, athrawes yn Ysgol Uwchradd Glan-y-Môr, Pwllheli. Beth arall ond newyddion rhagorol!

Yr un modd i Dafydd a Teleri Parri, 24 Y Ddôl ar eu priodas diweddar. Mae Dafydd yn nai i Jennifer Roberts, sy'n byw drws nesaf!

Hefyd i Graham Brown a Bethan, Cartref, ar eu priodas hwythau. Mae Graham yntau yn nai i Jennifer Roberts. Cyfnod prysur Anti Jen!

**PERFFORMWYR** Bu Dafydd Emrys ac Iwan Morris – casglwyr selog y Cysegr – yn dangos eu doniau perfformio cerddorol yn ddiweddar. Fel aelodau o fudiad Doniau Cudd dan arweiniad Arfon Wyn roeddent yn cymeryd rhan mewn cyngerdd yn y Gadeirlan yn Llanelwy.

**CLWB FFERMWYR IEUANC** Erbyn hyn mae y Clwb Ffermwyr Ieuanc wedi dechrau eu blwyddyn gynhwysfawr o weithgareddau. Maent yn cyfarfod pob nos Lun yn y Neuadd Goffa o 8pm. ymlaen. Mae croeso i aelodau newydd rhwng oedrannau 13 – 26 ymuno. Mae'r mudiad yma yn chwarae rhan bwysig iawn yn ein cymunedau gwledig ac yn agored i aelodau o du hwnt i gefndir amaethyddol. Edrychir ymlaen bob blwyddyn at y Rali sirol a'r Eisteddfod, heb anghofio wrth gwrs y cyfleuon i gystadlu yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd. Diddorol sylwi, er yr holl doriadau mewn grantiau, fod Rhanbarth Eryri wedi gweld cynnydd o 10% mewn aelodaeth y llynedd – y cynnydd mwyaf ledled Cymru.

## CAEATHRO

Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Gwasanaethau Capel** – Ar y 6ed o Hydref bydd Oedfa Diolchgarwch am 2:00pm dan arweiniad y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Ar yr 20fed o Hydref bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Harri Parri.

**Babi Newydd** Llongyfarchiadau i Ffion a Chris (Tai Bryn Teg) ar enedigaeth merch fach, Neli Wyn Roberts.

Croeso Estynnwn groeso i breswylwyr newydd Cefn Gof, sef Eigra Lewis Roberts a'i merch Sioned. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith!

**Tynfa Misol: 1af** (£40): Rhif 65: C. Evans (Llecyn Clyd); 2il (£25): Rhif 33: Robin Evans (Bryn Eden); 3ydd (£15): Rhif 104: Alwyn a Nia Jones (Y Dderwen); 4ydd (£5): Rhif 101: Dewi Parry (Cefn Rhos).

## CWM Y GLO

**Profedigaeth** Daeth tristwch ar aelwyd Moranedd, Cwm y Glo, nos Fercher 5ed o Fedi gyda marwolaeth Les Orritt, gŵr, tad, taid a hen daid annwyl iawn iddynt. Hunodd Les yn dawel yng nghwmni ei deulu yn Ysbyty Cefni, Llangefni. Yn frodor o Gwm y Glo, fe dreuliodd 59 mlynedd o fywyd priodasol gyda Hilda a'i blant, Judith, Nigel a Cynthia, ym Moranedd. Roedd yn dad yng nghyfraith arbennig i Glyn, Judith a Paul, yn daid arbennig a llawn balchder i Daniel a Dafydd, a hen daid i Ben ac Everleigh fach. Roedd yn frawd i'r diweddar Sylvia ac yn ffrind ffyddlon i lawer. Roedd yn weldar medrus ac mae ei waith graenus i'w weld drwyddi draw ym mro Eco'r Wyddfa.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn w'i briod, Hilda, a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u galar.

## Cyngor Llyfrau yn chwilio am y 'Gryffalo' Newydd

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn lansio cystadleuaeth newydd ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2020.


Dyma gyfle euraid i ddarlunwyr rhwng 18 a 25 oed gynnig am y cyfle i weld eu gwaith celf rhwng dau glawr, a hynny ar y cyd â stori wreiddiol gan Manon Steffan Ros.

Meddai Helen Jones, Pennaeth Llyfrau Plant y Cyngor, "Y dasg yw creu llyfr ffug (dummy) yn cynnwys brasluniau pensil ar gyfer llyfr stori-a-llun i blant, yn ogystal â gwaith celf gorffenedig ar gyfer o leiaf bedair tudalen ddwbl. Bydd geiriau Manon yn un rhan o'r stori, ond gall y delweddau adrodd yr hyn sydd rhwng y bylchau, ac ychwanegu ati."

Ychwanegodd, "Yn naturiol, byddwn yn chwilio am dalent weledol a chreadigol fydd yn apelio at gynulleidfa ifanc yn ogystal â'r oedolyn fydd yn rhannu'r stori. Byddwn hefyd yn asesu dawn yr ymgeiswyr i briodi testun a darluniau, a'u dealltwriaeth o naratif, rhediad y stori a'r cymeriadu.!

Dywedodd R. Arwel Jones, Pennaeth Adran Grantiau'r Cyngor, "Mae rhai o lyfrau plant mwyaf eiconig Cymru yn llyfrau stori-a-llun, o gyfrolau Sali Mali i Rala Rwdins, ac mae datblygu darlunwyr sy'n gallu dweud stori wreiddiol ar gyfer y plant lleiaf yr un mor bwysig â datblygu awduron. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y gystadleuaeth hon yn help i feithrin to newydd o dalent yn y maes."

Darperir testun y stori gan Swyddfa'r Eisteddfod a'r Cyngor Llyfrau. Ewch i dudalen 57 o'r Rhestr Testunau ar wefan yr Urdd am fanylion y gystadleuaeth. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Mawrth 2020.






# Atgofion am Chwarel Dinorwig



Tra bo'r holl gyfryngau cenedlaethol yn cofio hanner can mlynedd ers cynnal yr arwisgiad yng nghastell Caernarfon, mae cofio o fath arall yn digwydd yn ein broydd ni: cau Chwarel Dinorwig. Am y misoedd nesaf byddwn yn cyhoeddi atgofion am Chwarel Dinorwig gan un a fu'n gweithio yno o 1934 hyd gau'r chwarel yn 1969. Ein diolch i Meira Evans am anfon gwaith ei thad i'w gyhoeddi; gwaith a enillodd iddo y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Lyfrgell Sir Gaernarfon. Dyma gyflwyniad byr i'r gwaith gan Meira.

*Ganwyd fy nhad Owen Emlyn Jones neu Nowi Maes Llwyn (ar ôl ei gartref yn Newton Street Llanberis) yr ieuangaf o ddeg o blant. Buasai wedi bod yn 100 oed eleni. Mae hyn yn eithaf nodedig a deud y gwir gan ein bod yn cofio cau y chwarel hanner can mlynedd yn ôl hefyd eleni.*

*Bu'n gweithio yn y chwarel yn ddi-dor o 1934 hyd at ei chau yn 1969 ac eithrio saith mlynedd o wasanaeth yn yn yr ail ryfel byd pan fu'n gwasanaethu yn Burma. Pan gaeodd y chwarel ef oedd yr Is-Reolwr.*

*Mae'r gwaith yn gynnyrch cystadleuaeth 'Atgofion ar Dâp' a gyflwynodd fel rhan o gystadleuaeth a drefnwyd gan Lyfrgell Sir Gaernarfon ar gyfer yr Ŵyl Lyfrau. Enillodd y gystadleuaeth honno, a dyma'r cynnyrch buddugol.*

## Atgofion o'r Chwarel

Owen Emlyn Jones (Is-Reolwr y Chwarel amser ei chau yn 1969)

Yn Awst 1969 darfu chwarel Dinorwig ac ers hynny hyd yn awr tawelwch marwolaeth sydd dros y fan lle bu sŵn prysurdeb am cyhyd.

Yn Awst 1934, pan ddechreuais yno, gweithiai tua tair mil yn y chwarel, ac yn y felin fawr Y Muriau y cychwynais ar fy ngyrfa chwarelyddol a oedd i barhau yn ddi-fwlch i'w diwedd ac eithro i fy nghyfnod yn y rhyfel.

Gweithiai tua dau gant yn y felin pryd hynny, a rhuai ei chant ag wyth o fyrddau llifo'n ddi-baid yn ein clustiau ynghyd â sgrechiadau yr hogwr llifiau fel symffoni'r diafol ei hun.

Fel yr hogiau diweddaraf i mewn, nyni a gawsai'r waliau gweithio mwyaf drafftiog yn y felin, ac yno rhwng dau ddrws y cefais fy hun yn cychwyn dysgu'r grefft fel rybelwr bach. Gofalai tad, brawd neu berthynas arall am arfau gweithio i ni. Felly y bu gyda mi – hen drafel, a chyllell naddu, gordd a chynion manhollt ail-law ac yna darn o hen deiar fel carped lin. Wedi hel yr arfau, rhaid oedd trefnu'r wal i bwrpas gwaith a gosod y drafel yn sicr rhag iddi siglo, a'r blocyn tin ar y chwith iddi ac o fewn cyrraedd priodol i fwrw'r pentwr naddu. Chwilio am glytiau bach( fel y gelwid) oedd y gwaith nesaf, ac wedi eu cael, - gafael ynddi. Cofiaf yn dda fy ymdrechion cyntaf i hollti clwt. Eglurodd fy nhad wrthyf fod rhaid hanneru trwch y clwt bob tro nes cael un ar bymtheg o grawiau allan o glwt tua dwy fodfedd a hanner o drwch. Dangosodd i mi mai drwy hollti un mewn ychydig o funudau. Trwsgwl iawn oedd fy ymdrechion , ac yna wedyn wrth naddu'r crawiau yn gerrig to. Yn wir, yn y dyddiau cynnar hynny, rwbel naddu oedd fy nghynyrch mwyaf ac anghofia i byth y llafur o riglo rhyw dunnell ohono i'r wagan. Yr oedd y llwyth rhiglo hogiau rybela yn destun hwyl a gwawd i bawb. Yn gyntaf roedd rhaid i tua chwech ohonom rannu wagan, ac o ganlyniad yr oedd yn lwyth enfawr ac wrth gwrs oherwydd ein diffyg profiad, yn llwyth ansicr. Byddai wedi chwalu ddwywaith neu dair cyn cyrraedd pen y domen a phawb yn curo rhawiau, chwibannu a chwerthin pan ddigwyddai unrhyw anffawd. Yn aml cymerai fore cyfan i wared â'r llwyth melltigedig yma.

Wyth swllt a grôt oedd ein cyflog wythnosol ar yr isrif ond yr oedd gosodiad rybelwr yn ddwy bunt ac felly roedd posib ennill mwy na hynny wrth gynyrchu dros ddeuddeg swllt o gerrig mewn mis. Cofier mai saith ceiniog y cant oedd pris cerrig mwyaf a wnaethum, ac fod 128 o gyfrif ym mhob cant y chwarel.

Yn ystod yr awr ginio yr adeg honno, cawsai llawer o'r rybelwyr help gan eu perthnasau i wneud cyflog a hefyd wrth wneud negeseuon, rhoddwyd ychydig o gerrig mân inni neu grawiau bach wedi eu hollti.

Yr oedd tua deg ar hugain ohonom yn rybela yn Y Muriau a gofalai William Williams Glasgoed amdanom. Ef oedd yn gyfrifol am ein diwallu â cherrig, ein cadw mewn gwaith ac i ryw raddau helaeth ein disgyblu a'n dysgu. Bu yn hynod amyneddgar gyda ni er i ni ei blagio yn ddi-drugaredd. Treuliai oriau bob dydd yn chwilio am gerrig i ni ac yna wedyn amser yn chwilio amdanom i'w gweithio. O'i flaen ef Alaw Mai neu Richard Jones oedd yn ein hyfforddi a meddai ef ddawn arbennig fel organydd a cherddor. Meddai hefyd ar ddawn i drin pobl a gofalu yn arbennig am rybelwyr oedd yn amddifad ac yn ddi-gefn. Ar dywydd oer iawn pan oedd ein bysedd yn fferu ac yn methu'n glir a chynhesu byddai Alaw yn ein hel i Blas yr Onnen – hen gwt fforddolwyr Y Muriau lle roedd tân braf ac yno y byddai'n cynnal côr. Roedd yn werth canu i'r Alaw er mwyn i ni gael twymo. Wedi canu yn egniol am rhyw awr, byddem yn dychwelyd at ein gwaith wedi cynhesu a heb grwydro ar hyd a lled y gwaith.

Weithiau byddem yn myned i'r twll i nôl cerrig mân gan y bargeinwyr a thelid pedwar swllt y dunnell iddynt. Ambell waith, llwyth o faw gawsem ar ôl treulio pnawn cyfan yn ei drin a'i lwytho.

Wedi blwyddyn o rybela, byddem yn disgwyl cael ein dewis yn Jermyn gan y partneriaid a byddai y rhai gorau ohonom yn cael lle yn fuan. Wrth gwrs yr oedd perthynas neu gydnabod yn rheoli hyn eto a byddai rhai yn disgwyl dwy flynedd cyn cael lle. Heb yn wybod i ni byddai'r chwarelwyr yn ein pwyso a'n mesur tra'n rybela cyn rhoddi cyfle i ni fel Jermyn. Yr oedd ein dyddiau chwarae wedi dod i ben a gwaith o ddifrif oedd yn ein haros.

Wedi cychwyn go anobeithiol ; crwydro a chwarae a chadw reiat roeddwn wrth rybela, cymerodd fy nhad fi mewn llaw ac addawodd fy nysgu o hynny ymlaen. Cafodd Harri fy mhartner mewn drygioni yr un ddedfryd gan ei dad ynta, ac o hynny ymlaen dyna wers mewn disgyblaeth lem a dyfalbarhad yn dechrau ac yn parhau am rai misoedd nes yr oeddem yn rhywbeth tebyg i Jermyn.

Naddu oedd ein gwaith pennaf yn awr ac ar y drafel yr oeddem heb symud trwy'r dydd. Gofalai yr holltwr – sef ein partner fod digon o glytiau wedi eu hollti i'r Jermyn rhag iddynt symud oddi wrth eu gwaith. Daethom ninnau'r Jermyn yn brofiadol o glwyfau cyffredinol y gwaith – cyrn naddu ar ein bysedd, cric yn yr arddwn dde, gwisgo bysedd i'r gwaed ar y law chwith a phennau dyn ar yr wegil ac o dan ein ceseiliau. Pob un yn boenus ac ambell un yn gadael ei graith hyd angau.

Daethai ein cerrig o'n bargen yn y twll ar gar corniog haearn ar ffurf sled a gelwid y llwyth yn slediad o gerrig. Yn yr hen amser eu llusgo ar geir llusg neu sled oedd yr unig ddull i ddod â cherrig i lawr y llethrau serth oedd i lawr y gelltydd ac yna gydag injan bach at ymyl y felin y daethai ein sleidiau ni. Yna deuai'r stocer bach (rhyw bwt bach du fel glo) i'r felin gyda rhif y bargeinion ac aethai criwiau hynny i symud eu cerrig ar eu byrddau llifio priodol a'u dadlwytho yn bentwr twt yn barod i'w llifio i'w hydau.

Chwech a naw y dydd oedd isrif cyflog chwarelwr neu £1-13-9 yr wythnos a chyfrif mawr bob mis pryd y ceid y cyflog hwnnw i fyny i £15 os oedd y fargen yn un dda iawn. Arferai'r hogiau ifanc dalu £1 i'w mam am eu bwyd bob wythnos ac hwyrach £2 dros ben ar gyfri mawr os oedd yn un go lew. Gosodid pris ar y fargen gan y Stiward Gosod bob mis, a dyna debycaf i mi oedd y dadlau gorau a glywid yng Nghymru erioed. Byddai'r Stiward Gosod yn cychwyn o swyddfa'r libart (neu ranbarth) gyda stiward y libart honno ac ymwelai â phob bargen yn y libart i osod pris am y mis canlynol. Yr oedd ganddo'r awdurdod i godi neu i ostwng pris o fewn terfynau. Wrth osod y pris rhoddwyd ystyriaeth i gyflwr y fargen, ei deunydd, ei rhwyddineb i dynnu cerrig o'r graig a hefyd gyfartaledd cyflog a'r cynnyrch yn y misoedd blaenorol. Pan welai cyflog yn rhy uchel mewn bargen o'i chymharu â bargeinion cyfagos byddai'n gostwng y pris, a phan fyddai'r cynnyrch yn isel iawn wedi ymdrech deg yna codai'r pris gan ychwanegu pris y baw.

Busnes y bargeiniwr oedd cadw ei bris neu ei godi a dyna oedd testun y dadlau bob tro, bara a chaws yn erbyn cynyrch y graig. Credaf yn siwr fod rhai wedi bod yn ymarfer neu hel eu dadleuon ers dyddiau erbyn y dydd mawr. Wrth edrych yn ôl roedd yr actio'n wych yn y gyflafan eiriol yma, pob ystum yn dangos rhyw deimlad dwfn, digalondid, tristwch ac anobaith o ochr y cymerwyr, a hyder, ffydd a brwdfrydedd o ochr y gosodwr. Cofiaf am un gosodwr yn ceisio pwyntio allan rinweddau un fargen wrth y partner ac yn dweud

" Mae 'na gerrig yn y troed ucha 'na."

"Oes" meddai'r difriwr, "Mae 'na gerrig mewn eirin hefyd"

Dro arall gwelodd y gosodwr y partner yn ysmygu a dyma fo'n dweud fel rhyw ragair i'r busnes bargeinion.

"John" meddai "Petai'r Bod Mawr wedi bwriadu i chi smocio byddai wedi rhoi corn ar eich pen"

Atebodd John mewn fflach,"Ia" meddai " A phetai wedi bwriadu i mi ganlyn wagan yna byddai wedi rhoi bachyn ar fy nhîn i"

Disgrifiad arall gan fargeiniwr am ei fargen oedd " ei fod yn ddigon sâl i aros ar ei draed nos efo hi."

Wrth gwrs roedd hiwmor a'r tynnu coes yma ymhlith y chwarelwyr yn ddiarhebol a chymerai gyfrol gyfan i'w gofnodi,

Fel y dywedais uchabwynt y mis oedd 'diwedd y mis' ac yn ystod wythnos diwedd y mis y gwneid yr ymdrech eithaf unai i arbed yr isrif neu i'w sodro hi'n iawn. Rhuai'r byrddau yn fwy croch a sgrechiai'r hogwr ei hirnod uchel. Deuai partneriaid y twll i lawr i'r felin hefyd i helpu cwbwlhau'r cownt. Byddai hwyl dda ar bawb oedd wedi ei sodro hi a'r gwaith yn mynd yn ei flaen wrth ei bwysau heb ymdrech bron. Yr oedd yr uchafbwynt ar nos Iau ddiwedd y mis yna yn gwastadhau'r cyfrif ar ddydd Gwener. Byddai'r bargeinion cerrig rhywiog yn gweithio cerrig mesur sef 24 x 12 modfedd o fesur i lawr a rhaid oedd i'r cyfrif fod yn sgwar i'r chwarter cant ac wrth wastadhau'r cownt i'r cyfrif angenrheidiol. Gwelid cyd weithio hwylus rhwng y gwahanol fargeinwyr a'u gilydd, sef newid cerrig dros neu am y rhai oedd eu hangen, hynny yw os oedd angen dau fwrw o ddytus mawr i orffen fy nghownt yn sgwar, byddwn yn rhoddi dau fwrw (6 carreg) o brinsus a oedd dros ben yn eu lle ac felly yn y blaen ar hyd y mesurau.

Yr wyf wedi sôn am brinsus a dytus mawr felly gwell i mi egluro hyn yn awr.

Enwau ydyn a roddwyd ar wahanol fesurau o gerrig. Dywedir iddynt gael eu rhoddi yn ystod teyrnasiad y Frenhines Anne a sylwer eu bod yn dilyn trefn y frenhinol olyniaeth y llys.

| | | |
|---|---|---|
| Queens cerrig o | 26" – 42" o hyd | |
| Pricesses | 24" x 14" | |
| Duchesses mawr | 24" x 12 | |
| Duchesses bach | 22" x 12" | |
| Duchesses cul | 22" x 11" | |
| Countesses | 18" x 12" | 18" x 10 18" x 9 |
| Ladies | 16" x 12", 10", 9", 8" | |
| Ladies bach | 14" x 8" | |

Y peth sydd yn ddiddorol ydy mai benywaidd ydynt oll a disgrifir carreg yn ildio llawer o gerrig (llechi) yn rhwydd fel cerrig rhywiog.

Yn nechrau chwarelydda, pan gasglai'r tyddynwyr lechen o lethrau Elidir, yr unig fesur oedd ganddo oedd ei law h.y. o flaen ei fawd ar draws y cledr. Dyna oedd mesur llechen rhyw saith modfedd sgwar a phan gafwyd rhai mwy sef dwy led llaw o hyd galwyd hwy yn gerrig dwbwl sef 14" x 7" neu 13" x 7". Yn naturiol ni ellid dilyn y mesur yma ymlaen i ddwbl dwbl ac yn y blaen a daeth pren mesur y fodfedd a bedyddiwyd hwy yn yr enwau brenhinol. Dyma yr unig eirfa Saesneg a ddefnyddiwyd yn iaith y chwarel. Ni wn i ai yn chwarel y Penrhyn neu ai yn chwarel Dinorwig y dechreuwyd y termau yma. Gwn fodd bynnag fod pennill ar gael wedi ei chyfansoddi gan farnwr ar ymweliad â'r Penrhyn ac yn chwarae ar geiriau yn fedrus wrth ddefnyddio'r termau yma a'u plethu a gorchwyl yr holltwr a'r naddwr. Dyma rhyw linnell yn unig a gofiaf.

" .............................. The wonders I've seen

To see how a peasant doth handle a Queen"

Yr wyf wedi cyfeiliorni wrth sôn am y mesurau yma achos wedi holl lafur y mis byddai'r llyfr cownt yn dwad allan ac ar ganol pnawn Gwener byddai'r felin yn tawelu a phob criw yn eistedd yn eu gwaliau tra codai'r partner wâl ei gowntyn ofalus o'r crawiaui'r llyfr cownt. Hen lyfr marciwr ydoedd hwnnw fel arfer a'r hen ffigyrau gwreiddiol wedi eu glanhau oddi arno.Yno y rhoddwyd y swm cerrig yn y golofn briodol o ran mesur a gweithio allan eu swm yn ôl gwerth pen y llyfr.Wedi hyn aethai'r bargeinwyr a'r cownt i'r marciwr yn y swyddfa. Yno y clywid rhyw dri neu bedwar yn adrodd eu cyfrif i'r gwahanol swyddogion fel côr o fynachod yn adrodd eu paderau. Clywaf hwynt nawr ar glust atgo – yr ymchwydd a'r oslef a'r mydr.

" Deugain o Brinsus, hanner o ail, chwarter o drydydd"

"2 tri chwarter o dytus mawr, hanner o ail"

" Cant o ddytus bach, chwarter o ail" ac yn y blaen.

Tra roedd hyn yn mynd ymlaen byddai gweddill y criw yn codi'r cerrig i'r clwt peilio ac yn eu cyflwyno yn derfynol i'r orychwyliaeth. Yno yr oedd yn rhaid i bob carreg fod yn safonol a'r cyfrif yn berffaith. Gwaith y marciwr a'r cyfrwr oedd eu harchwilio a'u cyfrif.

Soniais yn gynharach am 'fwrw' ac hefyd am 'gant' oedd yn 128.

Fesul tair carreg y cyfrir llechi a'i alw y 'fwrw'. Fesul tri hefyd y cyfrir penwaig ar arfordir Môn ac Arfon.

42 mwrw a dwy garreg oedd cant y chwarelwr yn Ninorwig sef 128 carreg a 126 oedd cant o benwaig eto ar gei Y Felinheli. 42 mwrw yn unig oedd cant a'i wneud yn 126 yn union fel y penwaig. Ymhellach dywedwyd mai tri phennog yn unig y gellid gafael ynddynt yn hwylus efo un llaw. Dywedaf innau mai tair carreg o fesur canol neu fwrw y gellid eu codi gyda un llaw yn hwylus. Bu allforio mawr ar y lechen o borthladdoedd Arfon a gwelid ddylanwad y pennog yn dod ar y garreg. Clywais hen stori fod y cant 126 wedi eu rhoi i'r capteiniaid llong i'w di-golledu rhag colledion i'r cerrig trwy stormydd a'r cargo i symud ac yn y blaen, ac mai ef oedd piau'r gweddill dros y cant go iawn. Roedd hyn felly yn symbyliad iddo hwylio ei long yn ofalus i'r porthladdoedd tramor .

## Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

*Dyma ail gychwyn cyfarfodydd y Cylch Llenyddol a daeth criw da ynghyd i Lyfrgell Caernarfon i wrando ar ein gŵr gwadd, Cefin Roberts yn rhoi i ni beth o hanes cynhyrchu "Te yn y Grug" ar gyfer yr Eisteddfod yn Llanrwst eleni.*

*Roedd ei sgwrs yn wefreiddiol ac fe'n diddanodd yn ei ffordd unigryw ei hun, gan fanteisio hefyd ar y cyfle i ddweud wrthym pwy a ddylanwadodd arno er pan yn blentyn yn Llanllyfni. Dyfynnodd yn helaeth o hen rigymau a chaneuon, a hynny heb bwt o bapur.*

*Roedd yr ymateb a'r holi ar y diwedd yn brawf ein bod wedi cael noson i'w chofio am hir iawn.*

*Diolchodd Mary Roberts, ein Cadeirydd, yn gynnes iawn i Cefin am roi cychwyn mor ddifyr i'n tymor newydd.*

*Mis nesaf, Hydref 15fed, byddwn yn cael cwmni y Dr Sioned Davies, Caerdydd. Dowch draw i fwynhau. (£2 ar y noson neu £8 am y tymor)*

CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

# Teulu Abel Davies

Mae mwy o wybodaeth wedi dod i law yn ystod yr haf am ferched Abel Davies. Gyda diolch i Mrs Betty Owen, Stryd Newton am gysylltu. Gallai gadarnhau fod Juna a'i gŵr wedi dychwelyd o'r America a byw yn Bro Dawel yn nhai Craig y Don, Cwm y Glo. Roedd Owen Henry yn weithgar iawn gydag achos yr Annibynwyr yn y pentref. Ond fel 'Anti June' roedd Juna yn cael ei hadnabod bryd hynny yn y 1950'au cynnar. Doedd dim plant o'r briodas, a phan fu farw Owen Henry, dychwelodd Juna i Lanberis. Symudodd i Stryd Newton at ddwy eraill o'i chwiorydd, a chredai Mrs Owen mai Jenat oedd un ohonynt. Roedd yn hollol gywir. Bu farw Janet Ellin Davies yn 1967 yn Nhan y bryn, Stryd Newton yn 87 oed. Y chwaer arall oedd Emily (gweler isod).

Roedd y chwiorydd yn Stryd Newton yn cadw lodjwr, ac efallai ei fod yn berthynas iddynt. Cofia Mrs Owen fod un o weithwyr Banc y Midland (HSBC yn ddiweddarach) yn lletya yno, ac mai Phil oedd ei enw. A oedd yn berthynas i'r teulu?

Yna daeth gwybodaeth gan Arvon Roberts, Pwllheli yn egluro cysylltiadau Americanaidd y teulu, a'r rheini yn llawer cryfach nac a dybiwn i ar y cychwyn. Roedd y teulu o ochr tad William Abel yn hannu'n wreiddiol o siroedd y Gororau, ond ymfudodd ei hen hendaid, Charles Davies (1706-1801) i'r America. Bu ei hen daid, John Davies (1735-1806) yn byw yn North Carolina, a'i daid, William Davies (1763-1833), wedi colli ei wraig gyntaf, a ail-briododd a Hannah Jones o Lanberis. Roedd hi'n ferch i John Wheldon Jones, a dyna egluro'r cysylltiad a'r teulu hwnnw. Does ryfedd felly fod merched William Abel wedi ymfudo: roedd ganddynt lu o berthnasau yno ers dros bedair cenhedlaeth!


Arhosodd Margaret (Davies) yn Flushing, Efrog Newydd ble roedd yn briod a Charles Friedel. Bu farw yno yn 1983 yn 89 oed. Roedd ganddi o leiaf ddau o blant. Ond dychwelyd oedd hanes Juna (i Gwm y Glo ac yna i Lanberis) ac Eilian. Roedd hi wedi mudo ers 1910, wedi gwasanaethu fel nyrs yn ystod y Rhyfel Mawr, ac wedi ei derbyn yn ddinesydd Americanaidd yn 1919. Priododd Frank Wintera a fu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog America o 1913 hyd 1947, a buont yn byw yn Honolulu a Chaliffornia. Wedi marw ei gwr yn 1961 dychwelodd i Lanberis at ei chwaer Emily yn Stryd Newton. Bu farw yn 1970 yn 87 oed, a'i chladdu yn Nant Peris. Pan fu hi farw, dim ond pump o'r chwiorydd oedd yn dal yn fyw.

Roedd Margaret yn Efrog Newydd, Juna yng Nghwm y Glo ac yna'n Stryd Newton (bu farw yn 1983 yn 93 oed), Emily yn Stryd Newton (bu farw yn 1975 yn 88 oed), Elidir yn Stryd Turner, a Lily Menai. Hi oedd y chwaer a briododd Gwilym Williams, Stryd Charlotte yn 1919. Ar farwolaeth Eilian Wintera, dywedir ei bod yn byw yn Glan y don, Llanberis, ond pan fu hi farw yn 1975 yn 89 oed, rhoir ei chyfeiriad fel Tal y don. Ai'r un lle oedd y ddau? Dywedir fod ganddi dri mab, ond ni roir eu henwau.

Fel y gwelwch, roedd hirhoedledd yn perthyn i'r teulu. Hyd y gallaf ddarganfod, bu pob un ond dwy o'r chwiorydd fyw i fod dros eu pedwar ugain. Bu Coronwen Hodgson farw yn Stockport yn 1932 yn ddim ond 36 oed, a Julia Dalton yn 1958 yn 68 oed.

Ac yna daeth mwy o wybodaeth am y teulu gan Llinos Edgeley o dde Lloegr, ond yn wreiddiol o Lanwnda, ac yn cadarnhau'r ffeithiau uchod. Mae hi wedi ymchwilio i hanes teulu'r Wheldon, a dyna sut y daeth ar draws Abel Davies a'i ferched. Gall gadarnhau'r wybodaeth am Margaret, a briododd Charles Friedel yn Efrog Newydd yn 1916. Y ddau blentyn oedd Charles Junior a Janet. Yn 1919 mae'n gwneud cais am basbort i ddychwelyd i Gymru "to visit aged father and for my health". Pan ddaeth y teulu drosodd i Lanberis flwyddyn yn ddiweddarach, yn 1920, roeddent yn aros gyda Mrs Moses Ingham, 36 Stryd Fawr, Llanberis. Daeth Charles Jr drosodd yn 1929 hefyd gyda'i fodryb Eilian a'i gwr Frank Wintera, gan aros yn Mount Pleasant.

Ydi'r wybodaeth ychwanegol hon yn ddigon i brocio cof rhai o drigolion Llanberis tybed?



GWAITH COFFAOL
LLANRUG
Ffôn Gwaith
(01286) 672898
Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal
Ffoniwch ar 1286 871833 (SYMUDOL - 07778127394)

Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

## Y Parch James Eifl Hughes

Gyda diolch i Hywyn Williams, Deiniolen gynt am anfon gwybodaeth am deulu'r gwr a fu'n weinidog ar gapeli Dinorwig a'r Fachwen rhwng 1926 a 1930. Diolch hefyd i Neville Williams, Deiniolen am gysylltu. A daeth Dafydd Guto gyda mwy o wybodaeth am ei yrfa – o'r un ffynhonell yn union ac a ddarganfyddais innau, sef Y Blwyddiadur. Mae'n od meddwl fod y ddau gapel wedi cau erbyn heddiw, ond fod digon o aelodau yn yr ardal bryd hynny i gynnal gweinidog. Ac y mae gofalaeth gweinidog erbyn heddiw yn cynnwys ardal llawer ehangach – a llai o aelodau o bosib.

Camarwain ar fy rhan oedd credu ei fod wedi byw yn Neiniolen, er fod cyfeiriad ato yn Ebenezer mewn rhai cyhoeddiadau.

Rhwng y wybodaeth gan Hywyn a chofiant iddo yn Y Blwyddiadur yn 1967, gellir rhoi darlun gweddol gyflawn o'i fywyd. Fe'i ganed yn Nhremadog, ond symudodd y teulu'n fuan iawn i Lanaelhaearn, a dyna lle daeth yr enw "Eifl".

Yn fachgen ifanc, gweithiai yn Chwarel yr Eifl, ond penderfynodd fynd i'r weinidogaeth, a chafodd ei alw i fugeilio eglwysi Llidiardau a'r Celyn yn 1914. Ordeiniwyd ef y flwyddyn ddilynol, a dyna pryd y priododd a Winifred Smith yn Licswm. Ganed eu merch, Winifred Mary yn y Llidiardau yn 1916. Yn 1919 symudodd i Gorris, ble ganwyd James Emyr. Dyna'r flwyddyn y dinistriwyd Capel Corris gan lifogydd, a byddai wastad yn dweud mai ef fu'r unig un fu'n weinidog ar eglwys heb gapel ! Bu'n weithgar iawn yn codi arian ar gyfer ail-adeiladu capel yn Corris.

Symudodd i Ddinorwig a'r Fachwen yn 1926, ond cwta bedair blynedd y bu yno, cyn symud eto i Fodfari. Cafodd y teulu golled fawr yn y cyfnod hwn pan foddwyd John Emyr a ffrind iddo yn yr afon. O fewn cwta ddwy flynedd roedd wedi ymadael a'r ardal a symud i'r Rhyl a Thywyn, a bu yno hyd 1946 ac ymddeol. Fe'i claddwyd ym mynwent Maeshyfryd, Rhyl ym mis Chwefror 1966.


Derbyniodd Winifred Mary a James Emyr eu haddysg yn Ysgol Dinorwig, a bu'r ddau am gyfnod byr yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail; Winifred yn cael ei derbyn yno yn 1927 a James Emyr yn 1928. Roedd y trydydd plentyn, Robert David Geoffrey, yn rhy ifanc i fynychu Ysgol Brynrefail, a'r teulu wedi gadael yr ardal am Fodfari erbyn iddo gyrraedd oedran ysgol uwchradd.

Roedd Y Parch J Eifl Hughes yn fardd; yn cyfansoddi yn y mesurau caeth (dywedir mai yn Y Rhyl y dechreuodd feistroli'r gynghanedd) ac yn delynegwr. Cyfansoddodd rai emynau hefyd. Roedd yn aelod o Orsedd Beirdd Ynys Prydain. Os oes unrhyw un a chopi o'i farddonoiaeth, rhowch wybod.

## Mwy o Giperiaid – Y Dyn a wisgai Sgert

..... ond rhaid disgwyl tan y mis nesaf i gael hanes hwnnw.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com








DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
01286 673535
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

## BBQ



Cynhaliwyd BBQ dydd Sadwrn, Medi'r 7fed, ar dir yr eglwys. Disgwylid cynnal y digwyddiad yn y lle cyntaf oddi mewn i'r Neuadd, ond gan fod y tywydd mor braf, cludwyd y byrddau allan. Roedd siop ddanteithion, stôl ddiodydd, hufen iâ ac, wrth gwrs, y BBQ gyda byrgyrs a chŵn poeth, ynghyd â dewis llysieuol.

Cyrhaeddodd Chris Jones yn ystod y prynhawn ar ei feic, wrth gyflawni ei daith noddedig ar gyfer Ymchwil Cancr. Roedd wedi cychwyn ei daith ym Mae Cemaes ac wedi ymweld â holl eglwysi Môn cyn galw yn yr eglwysi a fu'n gysylltiedig â'r diweddar Barchedig Geraint Edwards. Gorffennodd ei siwrnai yng Nghaernarfon. Derbyniodd rodd gan yr eglwys ac fe dynnwyd ei lun. Roedd cefnogaeth dda i'r achlysur ac fe fwynhawyd y prynhawn.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned** Cynhelir Marathon Eryri ar Sadwrn, Hydref 26ain, gyda'r ras yn cychwyn am 10.30 y bore. Bydd angen 12 - 15 o wirfoddolwyr i stiwardio ym Mhen y Pas i groesawu a rhannu diod i'r rhedwyr. Os am helpu a fuasech garediced â ffonio Ann Ifans ar 872407 neu Phyllis Elis ar 870237. Llawer o ddiolch am eich cydweithrediad. Awgrymir rhannu ceir os yn bosibl.

Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr yw Rhian Williams, Clwt y Bont ac Elen George, Brynrefail.

Erfynnir am aelodau newydd, dim ond £6 y flwyddyn ac mae Archeb Banc ar gael.

Ysgol Sul Bosra Roedd yn braf croesawu nifer dda o aelodau i'r Ysgol Sul wedi gwyliau'r haf. Diolchir i Anti Sharon am ddod i gynorthwyo ar Sul, Medi 15fed, ac i Rhian, mam Nel, ar Sul, Medi 22ain.

Ar y Sul, Medi 29ain bu edrych y mlaen am gwmni hwyliog Anti Susan o Gynllun EFE - ceir y manylion yn y rhifyn nesaf. Yn ystod y flwyddyn bu'r plant yn casglu at y Genhadaeth Dramor a llongyferchir hwy am gasglu'r swm ardderchog o £60.

Rydym i gyd yn anfon ein cofion at Anti Liz gan obeithio y caiff driniaeth i'w chlun yn ddiymdroi. Dymuna Anti Ann ddiolch am y cerdyn bendigedig a'r blodau hyfryd yn dilyn y fraint o dderbyn y Fedal Gee am y mwynhad o gael cwmni cenedlaethau o blant ysgolion Sul Peniel, Waen Pentir, Rhiwlas a phlant ffyddlon Ysgol Sul Undebol Bosra.

Bnawn Sul, Hydref 13eg, bydd yr Ysgol Sul yn cymryd rhan mewn gwasanaeth 'Sul y Teulu' yng Nghapel Cysegr Bethel am 10.00 y bore. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth. Bydd y plant yn cymryd rhan.

**Gwellhad** Anfonir ein cofion anwylaf at bawb sy'n sâl yn y pentref gan ddymuno'r gorau i chi.

**Cinio Nadolig Pensiynwyr** Byddwn yn mynd i Westy Buckley, Biwmares, ar Sadwrn, Rhagfyr 14eg. Bws i gychwyn o flaen yr Ysgol Gymuned am 12.15. Enwau i Janet Ash ar 871265 erbyn Tachwedd 29ain.

**Diolch** Dymuna Ann Ifans ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y dymuniadau da ar dderbyn y Fedal Gee.

**Priodas Hapus** Ein dymuniadau gorau i Cenin ac Aled ar ddydd eu priodas ar Sadwrn, Medi 28ain.

**Pêl Bonws** Enillydd mis Awst oedd Michael Jones, Tyddyn Perthi.

## Eglwys Santes Helen

Ffarwelio â'r Ficer Dydd Sul, Medi 22ain, cynhaliwyd gwasanaeth olaf y Canon Robert Townsend yn St Helen a dydd Sul, Medi 29ain, yn St Padarn fel Ficer dros dro ym mhlwyf ardal weinidogaeth Bro Eryri. Diolchir iddo am ei wasanaeth yma ym Mhenisarwaun a'r fro a dymunwn bob bendith iddo a'i wraig, Kath, wrth iddynt gartrefu ym Miwmares a dod yn Ficer ym Mro Seiriol Ynys Môn.

Gwasanaethau'r Eglwys Cynhelir gwasanaeth yn yr Eglwys pob dydd Sul am 11 y bore.

Diolchgarwch am y Cynhaeaf

Addurno'r Eglwys Fe fydd yr Eglwys ar agor o 9 y bore dydd Sadwrn, Hydref 12fed, i addurno'r Eglwys ar gyfer yr Ŵyl Ddiolchgarwch. Fe werthfawrogir unrhyw gymorth, blodau, ffrwythau neu lysiau.

Gwasanaethau'r Diolchgarwch Dydd Sul, Hydref 13eg, am 11 y bore cynhelir Cymun Bendigaid Teuluol. Fe dderbynnir gwahanol fwydydd yn ystod y gwasanaeth yma i'w rhannu gyda'r digartref a'r banc bwyd lleol.

Nos Lun, Hydref 14eg, am 6 o'r gloch cynhelir y Gwasanaeth Diolchgarwch gyda'r pregethwr gwadd, y Parch Ganon Dylan J. Williams, Ficer Bro Eifionydd.

Swper y Cynhaeaf Yn dilyn y Gwasanaeth Diolchgarwch yn Neuadd yr Eglwys fe gynhelir Swper y Cynhaeaf am 7 yr hwyr. Y siaradwr gwadd yw Mr Dafydd Glyn Ellis, Brynrefail, Mae tocynnau ar gael drwy aelodau a swyddogion yr eglwys.

Dydd Sul y Digartref Dydd Sul, Hydref 13eg yw Sul y Digartref, ac i gofio amdanynt fe gynhelir gwasanaeth arbennig yn Eglwys Santes Helen am 4 o'r gloch y pnawn. Fe fydd y casgliad rhydd yn y gwasanaeth yma yn cael ei roi i Shelter Cymru. Estynnir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaeth yma.


Cronfa'r Fynwent Fe gydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd ganlynol tuag at gronfa cynnal a chadw'r fynwent. £20 gan Mr Meirion Thomas, Dinorwig. Mae'r gwair yn cael ei dorri 6 gwaith y flwyddyn ac mae un toriad arall i'w wneud gyn y gaeaf. Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar trwy law y trysorydd, Mr Selwyn Griffith, 7 Tal y Bont, Llanrug.

Te, Tost a Sgwrs Fe gynhelir te, tost a sgwrs yn Neuadd yr Eglwys am ddim bob bore dydd Llun o 9 tan 11 y bore. Croeso cynnes i bawb.




# TUDALEN YR IFANC

## Katie Lloyd - Nadolig yn Nepal



Katie Lloyd ydw i, merch 21 mlwydd oed, cyn disgybl Ysgol Brynrefail, ac yn wreiddiol o Bontrug. Ar y funud, dwi'n byw yn Sheffield, tra'n cwblhau fy mhedwaredd blwyddyn (fy mlwyddyn olaf) yn y brifysgol, lle dwi'n astudio peirianneg gemegol.

Mi fyddai'n treulio fy ngwyliau Nadolig eleni yn Nepal gyda 'The Green Program', er mwyn gosod paneli solar mewn pentref mynyddig. Yn 2015, tarodd daeargryn enfawr Nepal, gan achosi iddynt golli 30% o'i seilwaith pŵer. Bron i bum mlynedd yn ddiweddarach, maent yn dal i ddioddef. Gan ei fod yn famwlad i fynydd talaf y byd, mae'n hynod bwysig i warchod cyflwr y tirwedd; felly maent â diddordeb cyflwyno technoleg 'gwyrdd' i gwrdd eu hanghenion pŵer. Mi fyddai'n dysgu am ddyluniad y paneli, ac yn ennill yr hyfforddiant angenrheidiol ym Mhrifysgol Kathmandu, cyn teithio i bentrefi mynyddig i gynllunio ac i osod y paneli. Bydd y prosiect yma yn caniatáu i drydan gael ei ddarparu i 400 o drigolion Nepalaidd.

Cefais fy magu gan athletwyr; fy nhad yn sgïwr i dîm Prydain, a mam yn rhedwraig i dîm Cymru. Fel canlyniad, treuliais lawer o fy mhlentyndod yn y mynyddoedd, gan ddatblygu fy nghariad tuag at fyd natur. Mae bod yn dyst i gyflymder presennol cynhesu byd-eang yn siom, a dwi'n gweld y cyfrifoldeb i'w arafu yn disgyn ar fy nghenhedlaeth i; er mwyn caniatáu'r cenedlaethau ar ein hôl i 'allu gwneud y gorau o ryfeddodau naturiol y byd. Un o'r pethau mwyaf pwysig i newid yw ein defnydd ni o nwyddau crai: olew, nwy a glo. Yn y brifysgol dwi 'di dysgu am nifer o fathau gwahanol o egni adnewyddadwy ac yn edrych ymlaen at gychwyn fy nhaith yn y diwydiant, ar ôl gorffen.

'Dwi wastad wedi cael angerdd i grwydro tiroedd dieithr, i agor fy llygaid at wahanol ddiwylliannau ac i greu straeon fy hun, fel y rheiny rhannodd fy rhieni gyda mi ar ôl dychwelyd adref o'u rasys rhyngwladol. Mae'n bwysig nodi fy mod i'n ymwybodol bod teithio mewn awyren hefyd yn niweidio'r awyrgylch, ond mae'r gwaith mi fyddai'n 'i gyflawni yn Nepal yn hynod bwysig, ac yn golygu eu bod yn gallu lleihau ar eu defnydd o nwyddau crai, fydd yn y pendraw yn achosi hyd yn oed mwy o niwed.

Mae Nepal yn le arbennig i fy nheulu i, ers i fy chwaer hŷn, Megan, lwyddo i fod y ferch Gymreig ieuengaf i gerdded i 'Everest base camp' yn 2008. Dyna gychwynnodd fy niddordeb crynswth yn y wlad anhygoel hon. Pan glywais am y prosiect yma, roedd yn rhaid i mi ymgeisio, roedd popeth amdano yn siwtio fi'n berffaith! Gyda fy amser i raddio yn agosáu, a gymaint o wybodaeth am gynhesu byd-eang yn y cyfryngau pob dydd, cynyddodd fy nghymhelliant i fod yn rhagweithiol. Mi fydd y trip yn 10 diwrnod o hyd; 3 diwrnod yn y brifysgol, 5 diwrnod yn gweithio yn y pentrefi mynyddig, a gweddill yr amser yn ôl yn Kathmandu yn dysgu am y diwylliant lleol.

Yn fwy na dim dwi'n edrych ymlaen at weithio efo'r cymunedau lleol yn Nepal, ac i brofi o lygad y ffynnon, y gwahaniaeth mae prosiectau fel hyn yn gwneud i wledydd trydydd byd. Dwi'n gobeithio hefyd i ysbrydoli mwy o'r ifanc i ddilyn gyrfa ym maes peirianneg, yn enwedig merched, oherwydd mae gennym ni gymaint i gynnig i'r maes!

## Codi arian

Mae'r cwrs yn un drud, ac yn ffodus iawn, mi wnes i ennill ysgoloriaeth, oedd dim ond ar gael i 2 o fyfyrwyr yn y DU, i dalu hanner y gost. I dalu am yr ail hanner, rydw i'n codi arian drwy dudalen 'Just Giving'. Er mwyn casglu fy arian noddedig, rydw i wedi gosod pob math o sialensiau i mi fy hun dros y flwyddyn ddiwethaf. Ym mis Ebrill fe gyflawnais 'Y Pymtheg Copa', sef taith gerdded/rhedeg sy'n cynnwys pob mynydd yng Nghymru sydd dros 3000 o droedfeddi o fewn 24 awr. Y sialens nesa' fydd hanner marathon Ynys Môn ym mis Mawrth, os na chai fy nennu gan rywbeth yn gynharach…Felly os oes ganddoch chi unrhyw beth foed yn fach neu'n fawr, i'n helpu i wneud gwahaniaeth yn Nepal, fyddwn i'n ddiolchgar iawn!

https://www.justgiving.com/crowdfunding/katie-lloyd-1



## Y Cynllun Gwyrdd

Mae 'The Green Program' yn gwmni Americanaidd sydd yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr deithio i wledydd tramor i ymwneud â materion mwyaf dybryd ym maes datblygu cynaliadwy. Mae ganddynt 4 lleoliad maent yn trafeilio atynt yn flynyddol, gan gynnwys Nepal. Mae pob trip yn 8-10 diwrnod o hyd, ac yn cynnwys cymysgedd o addysg, gwaith a phrofiadau diwylliannol. Pob blwyddyn maent yn derbyn ymgeision gan filoedd o fyfyrwyr, a dim ond lle i 16 o rheiny sydd ar bob trip, felly mae'n eithaf cystadleuol!

Mae'n fraint fy mod wedi cael fy newis gan gwmni mor adnabyddus ym myd egni adweyddadwy. Dwi'n gobeithio bod y trip yma am fod yn gam gwych i mi tra'n cychwyn fy ngyrfa yn y maes.

Dwi'n gobeithio fy mod i wedi eich ysbrydoli chi i edrych ar yr hyn rydych chi yn ei wneud er mwyn bod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd. Mae hyd yn oed pethau bach fel bwyta' mwy o fwyd llysieuol neu feganiadd yn gwneud byd o wahaniaeth!

Os oes eisiau mwy o wybodaeth am y cwrs neu'r cwmni, ewch i'r wefan ganlynol:

https://thegreenprogram.com/programs/nepal neu gyrrwch e-bôst i mi: kt.lloyd@hotmail.com

## Plaid Cymru

Cynhelir cyfarfod agored yn neuadd Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen ar nos Fercher, 16eg Hydref am 7 o'r gloch. Pwrpas y cyfarfod fydd i drafod ail-sefydlu cangen o Blaid Cymru ar gyfer Deiniolen a Dinorwig. Croeso cynnes i bawb.

## Tymor yr hydref

Erbyn hyn mae tymor yr haf wedi ein gadael a'r dyddiau yn tynnu i mewn ac, wrth gwrs, y mae Ffair Nant o'r tu cefn inni ac, yn ôl yr hen bobl, y ffair ydoedd cynhebrwng yr haf.

**Marwolaeth** Fel y mae yn wybyddus i ni mae profedigaeth wedi dod i ran un o blant ardal Dinorwig pan fu farw Meira mewn cartref yn Llanelwy a hithau yn 90 mlwydd oed.

Ganwyd Meira yn y flwyddyn 1929 ar y 5ed o Fai mewn bwthyn ar dop Gallt y Foel a yna fe gafodd ei dwyn i fyny wedyn yn 6 Maes Eilian efo'i thad a'i mam, sef y diweddar Mr a Mrs Idwal Jones. Yr oedd ganddi un chwaer, Heulwen, a anwyd yn Ebrill 1935. Cafodd ei thad ei ladd yn y chwarel ar ddechrau'r pum degau yna cafodd Meira gartref efo'i hewythr, Hugh, yn Tyddyn Forgan, Llanddeiniolen, Ar ôl bod yng Ngholeg y Santes Fair ym Mangor aeth yn athrawes i Borthaethwy, lle y bu yn Brifathrawes. Wedyn symudodd i Ysgol Gynradd Biwmares fel Dirprwy Brifathrawes ac yno y bu nes iddi ymddeol. Ar ôl ei hymddeoliad aeth i Ysgol Llandegfan i wneud gwaith gwirfoddol hefo plant oedd angen dipyn mwy o sylw a bu yno am flynyddoedd a phawb yn meddwl y byd ohoni. Yr oedd yn athrawes gydwybodol iawn ac yn caru ei gwaith. Collodd ei phriod, Bob, yn 1972 pan oeddynt yn byw yn Llidiart y Parc, Llandegfan.

Pan yn byw yn yr ardal yma yr oedd yn aelod ffyddlon o Eglwys y Bedyddwyr Sardis. Yr oedd yn fodryb i David a Gavin ac yn meddwl y byd ohonynt gan nad oedd ganddi blant ei hun.

Fel yr oedd yn heneiddio a'r iechyd yn mynd yn fregus fe fu iddi gartrefu yn yr hen Ddeordy, Llanelwy, lle y bu farw ar 30ain o Awst.

Bu y gwasanaeth i gofio a diolch am ei bywyd yn Eglwys Santes Fair a Sant Nicholas, Biwmares dydd Gwener, 13ef o Fedi, lle yr oedd tyrfa dda wedi dod ynghyd i dalu y gymwynas olaf. Nid yn fuan yr aiff yn angof. Yn gwasanaethu oedd y Parch Lesley Rendle a thalwyd teyrnged iddi gan ei nai, Dei. Aeth y rhoddion yn ddiolchgar at Hosbis Tŷ Gobaith drwy law R.W. Roberts a'i Fab, Ffordd Ystrad, Dinbych.

'Hyn a allodd Meira ei wneud i'w disgyblion hi a'i gwnaeth', dyna oedd geiriau ei chyn-ddisgyblion ar ddydd yr angladd. Cafodd ei chladdu efo'i gŵr, Bob, ym Mynwent y Dref, Biwmares. Diolch i Dduw am gael adnabod un fel Meira

'Hedd perffaith hedd yng ngofal ei chreawdwr'.

**Pen-blwydd** Llongyfarchiadau mawr i Mrs Joan Rees Williams, gynt o Bryn Eilian a Beryl o'r Fachwen. Dwy ffrind o Ysgol Ramadeg Brynrefail gynt (y naill yn Llanrug a'r llall yn Landudno) y ddwy yn dathlu eu pen-blwydd yn 95 mlwydd oed ar yr ugeinfed o Fedi. Drwg gennym ddeall nad yw iechyd Joan yn rhy dda ac ar hyn o bryd mae hefo Sion, y mab, yn Llundain. Gobeithio y chwi wella yn lled fuan a chael dod gartref i Lanrug .Colli cael sgwrs efo chi a sôn am yr hen ardal. Wrth gwrs, yr dym yn dymuno yn dda a chofion annwyl at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt hefyd.

Deallwn hefyd bod tipyn o gwyno yn yr ardal. Dymunwn adferiad llwyr a buan i bawb sydd ddim yn dda cyn y daw y gaeaf a'r tywydd mawr. Llawer wedi bod yn yr ysbyty a rhai yn dal yno o hyd.

**Ein Cofion** at Hefin Goronwy, gynt o'r ardal, sydd wedi bod yn bur wael yn yr ysbyty. Gwellhad buan, Hefin.

**Marwolaeth** Cydymdeimlwn yn fawr â theulu Fron Olau, Gallt y Foel, yn eu profedigaeth fawr.

Ar ôl salwch blin a chreulon a'r flwyddyn olaf wedi bod yn arw ac ofnadwy o flin bu farw Mrs Linda Hughes, Fron Olau, yn ei chartref yng nghwmni ei gŵr, Bryn, a'r plant, Gareth a Karen. Bu farw yn dawel yn 72 mlwydd oed. Roedd yn ferch ieuengaf Mr a Mrs Jack Maxwell a gafodd ei geni yn Bigil, Dinorwig. Fe symudodd y teulu i 10 Maes Eilian ac oddi yno i gartref Linda a Bryn yn Fron Olau. Yr oedd yn chwaer i Sylvia a Mary a Gwynsul a'r diweddar Ronald a John.

Pan yn blentyn mynychodd ysgol Dinorwig a dechreuodd weithio yn George Mason ym Mangor ar ôl gadael Ysgol Brynrefail. Oddi yno aeth i Greengate & Irwell yn Llanberis lle y bu iddi gyfarfod â'i gŵr, Bryn. Bu iddynt briodi ar 18fed o Fehefin 1966 a ganwyd iddynt ddau o blant, sef Gareth a Karen, ac fe fu iddi aros gartref i'w magu, a'r ddau ohonynt yn eu haddoli ac yn meddwl y byd ohoni a hithau wrth ei bodd yn gwau dillad iddynt ac yn gofalu yn dyner amdanynt.

Ganwyd i Karen dri o blant, sef Gavin, Sophie a Shauna ac yr oedd Linda ar ben ei digon wedi dod yn nain i dri, ac yn fwy prysur nag arfer yn gwau iddynt. Ei phoen fwyaf pan fu iddi gael gwybod bod ei dyddiau yn dirwyn i ben ydoedd na châi weld y plantos yn tyfu i fyny. Yr oedd yn poeni yn arw na fyddai yn cael gweld Nadolig arall gan i'r arbenigwr ddweud wrthi ar ôl y sgan na welai y Nadolig. Tarodd hyn Karen yn arw iawn ac yn ei galar dywedodd wrth ei mam y câi ginio Nadolig o flaen pawb arall gan mai ei bwriad oedd gwneud cinio Nadolig iddi, ac felly y bu ac, fel y byddai ei mam yn dweud hefo grefi aur arno. Sut y gallodd ei wneud mae'n anodd credu, mae hyn yn dangos y cariad oedd ganddi at ei mam, Nid wyf yn credu y gallwn i fod wedi ei wneud ond pob parch i Karen yng nghanol beth oedd o'i blaen. Clod mawr iti, Karen, wnei di byth ddifaru ac, wrth gwrs, mae yn anodd meddwl beth oedd yn meddwl ei gŵr, Bryn.

Bu farw ar y pedwerydd ar hugain o Awst a cafodd ei chladdu o Fron Olau yn ôl ei dymuniad ar yr 2il o Fedi, nid aeth i'r ysbyty o gwbl, marw adref hefo'r teulu oedd ei dymuniad a dyna a gafodd.

Yr oedd y cynhebrwng yn Eglwys Crist Llandinorwig lle y cafodd y teulu y fraint o ddiolch am ei bywyd ac i'r plant gael diolch am fam mor arbennig.

Yr oedd yr angladd yng ngofal ei hewythr, y Parch Dewi Morris. Talodd deyrnged i Linda yn yr eglwys ac yna bu'r cyflwyniad ar lan y bedd ym mynwent Macpelah, Deiniolen.

Bryn, Gareth a Karen, cawsoch wraig a mam a fydd hefo chwi i'r diwedd.

'Clod a gogoniant fyddo i ti

Ffrind a Gwaredwr oesoedd di-ri.'

Cydymdeimlwn fel ardal yn fawr â chi fel teulu a gobeithio y cewch nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma a'ch colled fawr.

Diolch Dymuna Bryn, Gareth a Karen ddatgan eu diolch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli gwraig a mam. Diolch i'r Parch Dewi Morris am ei wasanaeth urddasol. Diolch hefyd i deulu, cymdogion a ffrindiau am yr arian, y blodau, y llu cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch i'r feddygon Llanberis, Mrs Annette Parri wrth yr organ ddydd yr angladd, ac i'r swyddogion nyrsio. Diolch arbennig i'r paramedics ddydd neu nos am eu hamser yn gwneud Linda yn gyfforddus ac am ddod â gwên i'w hwyneb. Hefyd diolch i'r cyfarwyddwr angladdau Meinir Griffith, Tros y Waen, Penisarwaun, am ei gwasanaeth hollol urddasol a theimladwy. Diolch yn fawr i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt.

# Cymdeithas Edward Llwyd

**Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru**

Elusen Gofrestredig rhif 1126027



Mae'n fis Hydref ac mae'r cnau yn aeddfedu ar y coed cyll a'r hen wiwer yn gorfod penderfynu ble i gadw nhw yn ddiogel dros fisoedd y gaeaf. Rhaid iddi wneud yn siŵr bod digon i'w chadw hi i fynd tan y gwanwyn. Wrth feddwl am gnau dw i'n cael atgofion o fy nyddiau cynnar yn Llanallgo, sir Fon. Roedd Mam a Dad yn mynd â ni efo bagiau i le ar gyrion Marianglas ble roedd mwy na ddigon ar y coed. Dw i'n siŵr roedden ni'n casglu llawer mwy nag o'n ni eisio ar gyfer ein hunain a chnau mwnci dw i'n cofio cael adeg y Dolig. Tybed a oedden nhw'n eu gwerthu er mwyn cadw'r blaidd o'r drws. Fel rheithor y plwyf doedd y tâl ddim yn ddigon i'n cadw'n ofnadwy o gyfforddus er doedden ni byth yn llwgu ac roedden ni'n hapus dros ben.

Ar hyn o bryd mae'r coed yn llawn lliwiau a phob math o eirin yn hongian yn drwm. Os dach chi'n hoffi tynnu lluniau dyma amser da i grwydro, gwisgwch yn dda a chadwch eich llygaid ar agor - mae byd natur yn ddiddorol!

Mae'r Gymdeithas yn trefnu teithiau maes pob dydd Sadwrn mewn tair rhan o Gymru ac mi fydd croeso mawr i chi ymuno a ni. Os dach chi'n dysgu, neu wedi dysgu, wel dyma eich cyfle i ymarfer eich siarad ac, ar yr un pryd dysgu am fyd natur. Beth amdani? - Sadwrn Siarad pob dydd Sadwrn! Mae rhaglenni'r tair ardal ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru

Edrych ymlaen at eich gweld chi.




**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

**Swyddfa Etholaeth**
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru


## Elusen
## CRONFA GOFFA R.H. OWEN

**Gwahoddir ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr cymwys o ddalgylch YSGOL BRYNREFAIL am grantiau o'r gronfa uchod ar gyfer hyrwyddo addysg bellach yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol blwyddyn academaidd 2018-2019**

Am ffurflen gais anfonwch at yr ysgrifennydd Mrs Heather Jones, 3 Maes Padarn, Llanberis, LL55 4TE.

cronfarhowen@aol.
Heatherjones37@aol.com
07867 982518

DYDDIAD CAU: Hanner Nos 31 Hydref 2019.




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

## Llwyddiant Ynyr Pritchard



Mae Ynyr Bl13 yn rhan o'r BBCPYE (BBC Proms Youth Ensemble) ac wedi chwarae ochr yn ochr gyda Cherddorfa Genedlaethol Cymru y BBC yn ddiweddar yng Nghaerdydd. Roeddent yn perfformio darn newydd gan y cyfansoddwr a gitarydd Radiohead: Jonny Greenwood. Teitl y darn oedd 'Horror vacui', darn i unawdydd ffidl ac i gerddorfa llinynol. Roedd y Prom ar y radio yn fyw yn ddiweddar ac ar gael am 30 diwrnod wedyn ar BBC iPlayer. Da iawn Ynyr!

## Ffotograffwr



Llongyfarchiadau mawr i Ollie Teasdale blwyddyn 8 a enillodd y wobr i ddisgyblion dan ddeuddeg yn y gystadleuaeth Ffotograffiaeth Bywyd Gwyllt Prydain. Da iawn ti Ollie

## Presenoldeb 100%




Llongyfarchiadau mawr i griw o ddisgyblion arbennig a lwyddodd i fynychu'r ysgol BOB diwrnod yn ystod 2018-19. Ar ddechrau'r flwyddyn yma cawsom gyfle i ddathlu eu llwyddiant arbennig. Cyflwynwyd tystysgrif i bob disgybl gan Mrs Gwenno Bebb a llongyfarchwyd pob un yn bersonol gan y Pennaeth, Mrs Ellen Williams. Rydym yn credu bod presenoldeb da yn allweddol i lwyddo yn yr ysgol ac ym myd gwaith wedi hynny ac felly'n arbennig o falch o'r disgyblion hyn:
Twm Brookes, Gwilym Evans, Gruffydd Llwyd, Gwenllian Owen, Tomos Roberts, Mared Enlli Evans, Osian Hanks, Anest Jones, Beca Parry, Ben Prebble, Elin Williams, Serenna Williams, Jack Booth, Jade Land, Cai Moss, Tomos Williams a Mared Vaughan.

## Prif ddisgyblion 2019 - 20

Ar ddiwedd tymor yr haf cyflwynodd nifer o ddisgyblion blwyddyn 12 geisiadau i fod yn brif ddisgyblion o Fedi 2019 ymlaen. Cawsom ein plesio gan gynnwys y ceisiadau a'r syniadau oedd gan y disgyblion am fywyd yn yr ysgol a'r chweched dosbarth. O ganlyniad penderfynwyd creu Swyddogion i gynorthwyo'r Prif Ddisgyblion wrth eu gwaith.
Prif Ddisgyblion 2019-20 – Gwenllian Griffiths ac Ynyr Pritchard
Dirprwyon – Rhydian Williams a Beca Jones
Swyddog Amgylchedd – Elen Williams
Swyddog Cyfle Cyfartal – Anna Thomas
Swyddog Cymdeithasol – Twm Herd
Swyddogion Iechyd a Lles – Iolo Roberts ac Osian Thomas.
Llongyfarchiadau iddynt bob un a phob lwc wrth eu gwaith eleni.

# Noson Wobrwyo







Unwaith eto eleni cawsom noson wobrwyo fendigedig i longyfarch yn gynnes iawn y rhai hynny a lwyddodd yn arbennig yn eu arholiadau TGAU a Safon Uwch yr haf yma. Cynhaliwyd y noson ar nos Iau, Medi 12fed gyda phob disgybl oedd wedi ennill graddau A* ac A yn ei arholiadau TGAU a Lefel A yn derbyn gwobr am eu llwyddiant arbennig. Yn ychwnaegol at hyn roedd pob adran wedi enwebu un disgybl i ennill gwobr cynnydd ac un i dderbyn gwobr safon yn eu pwnc ar lefel TGAU a Safon Uwch.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion hyn oll am ganlyniadau arbennig a dymuniadau gorau i'r rhai hynny sydd bellach wedi cychwyn ar eu cyrsiau coleg a phrifysgol a phrentisiaethau erbyn hyn. Cofiwch bod croeso nôl yma i chi yn Ysgol Brynrefail unrhyw bryd.










# DEINIOLEN Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

**Plaid Cymru**

Cynhelir cyfarfod agored yn neuadd Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen ar nos Fercher, 16eg Hydref am 7 o'r gloch. Pwrpas y cyfarfod fydd i drafod ail-sefydlu cangen o Blaid Cymru ar gyfer Deiniolen a Dinorwig. Croeso cynnes i bawb.

Dymuna Anna, Kathy a Karl ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion fynegodd gydymdeimlad a charedigrwydd wedi colli gŵr a thad annwyl – Elfed Wyn Williams, 77 Pentre Helen, Deiniolen. Diolch i Stephen Jones, Bethesda, am drefnu'r angladd. Mae rhodd er cof am Elfed wedi mynd i Gyfeillion Meddygfa Llanberis.

**Gair gan y Cynghorydd Elfed Williams**

Dymuna ddiolch i Cartrefi Cymunedol Gwynedd am osod ffens a llwybr newydd yn Rhydfadog yn ddiweddar. Diolch hefyd i adran stadau Ysbyty Gwynedd am osod cysgodfan newydd ar y clinig yn Neiniolen ddiwedd Awst. Hoffai ddiolch hefyd i Nia Williams o Gyngor Gwynedd am gynnal gweithdy yn Nhŷ Elidir i helpu trigolion y pentref gyda'r dasg o lenwi ffurflenni ar gyfer pas bws newydd.

**Cydymdeimlo** Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r diweddar Linda Hughes (Maxwell), Gallt y Foel yn eu profedigaeth.

**Merched y Wawr** Cafwyd noson agoriadol lwyddiannus gyda nifer wedi dod ynghyd eto eleni. Cawsom sgwrs ddifyr gan Anwen Thomas o gwmni Troedio Caernarfon. Diolch i Janice, Linda a Sheila am banad a mins pei hyfryd. Bydd y cyfarfod nesaf yn Nhŷ Elidir nos Lun, Hydref 21, pan fydd Alwyn Jones o'r Ambiwlans Awyr yn galw heibio am sgwrs.


**Cofio cau Chwarel Dinorwig** Dydd Sul, y 15fed o Fedi, yn Ysgol Gwaun Gynfi, cafwyd gwasanaeth i gofio cau'r chwarel. Roedd neuadd yr ysgol yn orlawn a diolch yn fawr i bawb a fu'n ymwneud gyda'r trefniadau. Cafwyd cyfraniadau gan y cyn Barchedig Canon Idris Thomas, Gareth Roberts Menter Fachwen, Lindsay Vaughan Pleming, Mary Wyn Jones (yn darllen cerdd gomisiwn Sandra Morris), Catrin Llewelyn, disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi, Band Deiniolen, Parch. John Pritchard a'r Parch. Canon Roberts Townsend. Braf iawn oedd cael y cyfle i gofio yma yn Neiniolen.

**Cymdeithas Lenyddol** Deiniolen Fe ddechreuodd y gymdeithas dymor newydd ar Fedi 23ain, adroddir yn llawn yn yr Eco nesaf. Mi fydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 28ain gyda Annwen Jones o Archifdy Caernarfon yn galw heibio am sgwrs, croeso i bawb fynychu.

**Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch** Atgoffir pawb y bydd yr eisteddfod mewn dwy ran eleni. I gychwyn, mi fydd Noson Fawreddog yn cael ei chynnal eleni nos Wener, 25ain o Hydref, am 7.30 yn neuadd yr Ysgol ble cynhelir cystadleuaeth ysgoloriaeth 16-25 gyda gwobr o £300. Y beirniad eleni yw Cefin a Rhian Roberts, Ysgol Glanaethwy.

Ar y dydd Sadwrn, 26ain o Hydref, cynhelir yr Eisteddfod am 12.00 yn yr ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc o oed meithrin hyd at blwyddyn 11. Mae testunau ar gael yn siopau'r ardal neu gan y pwyllgor. Atgoffir yma hefyd am y noson Celf a Chrefft a Choginio fydd yn neuadd yr ysgol am 5.30 nos Wener, Hydref 18fed. Dewch i gefnogi.

**Dymuna** Osian Trefor, ynghyd â'i rieni, Dilwyn a Sandra, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gyfarchion a'r dymuniadau da a dderbyniodd Osian ar ôl ei lwyddiant yn ddiweddar yn cipio y wobr gyntaf am yr Unawd Alaw werin o dan un-ar-bymtheg oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst eleni. Diolch o galon i bawb.




## Dyfodol Eco'r Wyddfa

**Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor Eco'r Wyddfa nos Iau, 19eg o Fedi. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd y cwestiwn o olyniaeth swyddi swyddogion y papur. Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf yr Eco yn 1976, sef 43 o flynyddoedd yn ôl, ac mae rhai o'r swyddogion a benodwyd yn ôl yn 1976 yn dal i weithio ar y papur! Dyna 43 o flynyddoedd o ymroddiad gwirfoddol, di-flino a ffyddlon i'r Eco.**

Roedd chwech o swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod o'r pwyllgor, a phob un ohonom ni yn ein saithdegau! Cytunwyd yn y cyfarfod bod argyfwng yn wynebu'r Eco, gan fod sawl un erbyn hyn yn mynegi'r awydd i roi'r gorau i'w cyfrifoldebau.

Cytunwyd i alw cyfarfod cyhoeddus rywbryd cyn y Nadolig er mwyn cael trafodaeth agored a gonest ynglŷn â dyfodol y papur. Bydd manylion pellach am y cyfarfod yn rhifyn Tachwedd o'r Eco. Mae un peth yn gwbl amlwg, rhaid cael gwaed ifanc a newydd yn y rhengoedd neu efallai mai Nadolig 2019 fydd y Nadolig olaf i Eco'r Wyddfa!

Tony Elliott

Cadeirydd Pwyllgor Eco'r Wyddfa

## Gwaith Celf i blant y pentref 10-30 hyd 12.30 o'r gloch

Bore Sadwrn, Medi 21, bu cyfle i blant y pentref gael arbrofi gyda gwahanol ddefnyddiau. Roedd Mrs Susan Williams, Ceunant, gyda ni i ennyn diddordeb y plant a'u denu a'u harwain gyda'i syniadau. Roedd cyfle hefyd i wrando ar stori a chanu cân neu ddwy. Rydym yn ddiolchgar i'r rhieni/gofalwyr am ddod â'r plant i'r festri ac aros gyda hwy drwy'r amser. Bydd tri chyfarfod arall a bydd paned neu ddiod oer a rhywbeth bach i'w fwyta: bore Sadwrn, Hydref 26; Tachwedd 16 a Rhagfyr 21. Bydd croeso cynnes i chi bob mis rhwng 10.30 a 12.30 o'r gloch y bore. Diolchwn i Mrs Williams am baratoi ar gyfer y gwaith celf ac am arwain y plant.

**Y Garej Pant Waun** Ar hyn o bryd mae Arddangosfa Gelf a llawer o luniau gwreiddiol wedi eu paentio gan Mrs Shirley Sykes i'w gweld yn y garej ac mae croeso i bawb fynd yno i'w gweld.

**Ymddangos ar y Teledu** Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi gweld Mared Rhys, Eryri Wen, Stad Bod Hyfryd, ar y rhaglen 'Rhannu' ar S4C ond nid ydym eto wedi ei gweld na'i chlywed yn cymryd rhan yn ateb y cwestiynau. Rŵan mae yna edrych ymlaen i weld beth sy'n digwydd. Pob hwyl i ti, Mared.

**Priodas** Dydd Sadwrn, Awst 24, yng Ngwesty Fictoria, Porthaethwy, bu gwasanaeth a brecwast priodas Llion o Gaernarfon a Kelly a oedd yn byw yma yn y Waun. Dymunwn briodas hapus i'r pâr ifanc. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon.

**Pen-blwydd Priodas** Llongyfarchiadau i Elfyn a Menna Griffith, Blaen y Nant, Stad Bod Hyfryd, ac i Iris a Keith Owen, Stad Tŷ Hen. Bu'r ddau bâr yn dathlu cyrraedd dydd eu Priodas Ruddem yn ystod diwedd Aws a dechrau Medi. Dymuniadau gorau iddynt.

**Baban Bach Newydd** Yn rhifyn yr Eco mis diwethaf roeddem yn llongyfarch Mrs Jacqueline Owen, Stad Tŷ Hen, ar ddod yn nain i ŵyr bach newydd. Y mis yma rydym yn ei llongyfarch ar ddod yn nain i Cerys, merch fach a anwyd i'w merch yng nghyfraith, Cheryl, a'i mab Daniel. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r rhieni ac i nain yng nghwmni y rhai bach a'r pleser o'u magu.

**Tristwch a Chydymdeimlad** Daeth tristwch a phrofedigaeth i ran Daniel a Charline a'u teulu o golli eu tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl i'w wyrion a'i wyresau bach.

**Colled Drist** Cydymdeimlwn yn ddwys â Glory a John Roberts, Tŷ Hen, yn eu profedigaeth o golli mam annwyl i Glory a mam yng nghyfraith John. Mae'r ddau wedi teithio i Batagonia er mwyn bod yng nghwmni y teulu yn eu galar.

**Profedigaeth** Tristwch oedd clywed am farwolaeth Mair (Taylor, gynt) yn ei chartref ym Methel. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i brodyr Len ac Aled ac â'i chwaer, Catherine a'r teulu, ac â'i theulu ym Methel yn eu profedigaeth a'u hiraeth am un annwyl iddynt.

**Cofion Cynnes** at y rhai o'r pentref sydd wedi derbyn gofal yn yr ysbyty a'r rhai sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Bu Mrs Iris Evans, Stad Croes y Waun, yn cael triniaeth pen-glin yn Ysbyty Gwynedd a chofiwn at ei phriod, Idris Evans, sydd yn derbyn gofal yng Nghartref Bryn Seiont Newydd yng Nghaernarfon.

Cafodd Eirian Jones driniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd ac mae'n dda clywed ei bod yn gwella. Cofiwn hefyd at Leslie, ei phriod, sydd yn derbyn gofal yn yr ysbyty ym Mangor, Mae'n braf deall fod Diane, Afallon, a'i mab William yn gwella wedi i'r ddau fod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth.

Croeso adref o'r ysbyty i Clive Owen, Stad Tŷ Hen, wedi iddo gael triniaeth clun newydd yn Ysbyty Gwynedd. Mae'n dda ei weld yn ymarfer ac yn cryfhau.

Croeso adref i Gareth Wyn, Stad Llys y Waun, wedi iddo yntau dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Anfonwn** ein cofion cynnes hefyd at Doctor Williams sydd yn yr ysbyty ym Mangor yn derbyn gofal.

Cofiwn at Haydn, Stad Tŷ Hen, sydd yn ymweld ac ysbyty yn Birmingham ac yn derbyn gofal gan y meddygon yno.

Dymunwn wellhad buan i Jason Lee sydd wedi cael triniaeth i'w ysgwydd wedi iddo gael anffawd gyda'i feic.

Anfonwn gofion at y rhai sydd ddim yn dda ac yn deerbyn gofal adra gan eu meddygon teulu, y nyrsys cymunedol a'r gofalwyr.

**Gwasanaethau y Capel, mis Hydref am 10.00 o'r gloch y bore**

6: Mr John Roberts, Llanfairpwll
13: Parch Hugh Pritchard
20: Mr D. Glyn Williams, Llandudno
27: Gwasanaeth Diolchgarwch

SPAR
Y Storfa Spar Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost
Llun - Sadwrn 6:30am - 9 pm, Sul 8am - 9pm



## LLANBERIS
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

**Dathlu Pen-blwydd Priodas** Llongyfarchiadau i mam a dad a nain a taid, sef Nige a Jude Orritt, 7 Blaen y Ddôl, ar ddathlu Pen-blwydd Priodas Arian ar y 1af o Hydref. Cariad mawr oddi wrth Dan a Dafydd, Ben ac Everleigh bach a'r teulu oll. Gobeithio y cawsoch amser da yng Nghaerdydd!

**Er cof am Alwyn Peris Williams**

Un annwyl sydd yn huno - yn dawel
Gyda Duw mae'n trigo;
Daw o hyd ei gariad o
I'n gafael wrth ei gofio.
Bryn Jones

**Eglwys Sant Padarn** Ar nos Sadwrn, Medi 21, daeth cynulleidfa ynghyd i brofi noson wefreiddiol yng nghwmni'r gantores opera, Susan Bullock a'r cyfeilydd Tim Ward. Mae gwreiddiau Susan yn ddwfn ym Maes Padarn, ac mae galw mawr amdani ar draws y byd. Fe fagwyd Tim yntau ym Maes Padarn ac mae ei yrfa ef bellach wedi ei seilio yn Llundain. Dechreuodd y noson gyda gwledd o ddanteithion a gwydriad bach o win. Cafwyd ystod amrywiol o gerddoriaeth gan gynnwys Puccini, Wagner, Gershwin a Rachmaninoff. Roedd yn fraint cael bod yno i wrando ar y fath dalent, ac mae ein diolch yn fawr iawn i'r ddau am gefnogi'r ymgyrch tuag at achub Eglwys Sant Padarn.
Ar ddydd Sadwrn, yr 2ail o Dachwedd, am 7 o'r gloch, bydd y Welsh Whisperer yng Ngwesty'r Victoria, Tocyn £12 yn cynnwys bwyd. Bydd yr elw yn mynd tuag at Ymgyrch Cyfeillion Eglwys Sant Padarn.
Mae tocynnau ar gael drwy ffonio 07867982518 neu 01286 871423.
Bydd Ffair Grefft Hydref ar ddydd Sadwrn, 19eg o Hydref, rhwng 10 a 3 o'r gloch. Crefftau lleol, sêl ben-bwrdd, bric-a-brac, tombola. Te, coffi a lluniaeth ar gael!

**Diolchiadau** Dymuna John, Trefor, Karen, Elaine, Enid a theulu'r ddiweddar Elizabeth Mary Jones (Betty Plas Coch) Y Berllan, Llanberis, ddiolch am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Bu'r gefnogaeth a gawsom gan gyfeillion a chymdogion yn gysur mawr i ni fel teulu. Gwerthfawrogir y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Gronfa Capel Coch ac elusen Cancr.

**Cymdeithas Undebol Capel Coch**
Cafwyd cychwyn da i dymor newydd y Gymdeithas ar nos Fawrth, Medi'r 10fed. Croesawyd parti 'Cadwyn' a'u harweinydd, Gareth Jones, a chafwyd ganddynt gyngerdd o ganu da. Diolch iddynt am ddod atom, a diolch i bawb a fu'n paratoi'r lluniaeth i ni wedi'r cyngerdd.

*** **Newid Dyddiad** ***
Bydd y cyfarfod nesaf fis Hydref, a bydd y dyddiad ar gael yn y Gronyn neu gan un o swyddogion y Gymdeithas, pryd y bydd gennym noson yng nghwmni Caryl Bryn.

**Gwasanaethau Capel Coch**
Hydref 6ed am 10yb: Parch Cath Williams
13eg am 10yb: Cymanfa Presbyteriaid Padarn yn Y Cysegr, Bethel am 5yh: Y Gweinidog
20fed am 10yb: Parch Huw Pritchard
27ain am 10.30: Oedfa Deulu
Tachwedd 3ydd am 10yb: Mrs Nerys Griffiths
10fed am 10yb a 5yh: Y Gweinidog
17eg am 10yb: Y Parch Robert M. Morris
24ain am 10.30: Oedfa Deulu
Gwasanaethau Jerusalem (am 2 y pnawn)
Hydref 6ed: Y Parch John Pritchard
13eg: Gwasanaeth Diolchgarwch
20fed: Mr Charles Wyn Jones
27ain: Dim Gwasanaeth
Tachwedd 3ydd: Y Parch John Pritchard
10fed: Mr John Roberts, Waunfawr
17eg: Dim Gwasanaeth
24ain: Canon Idris Thomas

## Dathlu'r Deg – a chyfrannu at elusen

Ddeng mlynedd yn ôl sefydlwyd busnes Trin Gwallt TW ym Mangor, ond symudodd i Lanberis yn ddiweddarach. Ddechrau Medi bu'r busnes yn dathlu deng mlynedd drwy gynnal prynhawn agored yn y salon gyda diodydd a chacennau i gwsmeriaid, teulu a ffrindiau. Cafwyd arddangosfa gan y steilydd, Lowri ar gynhwysion cwmni L'oreal. Cynhaliwyd raffl er budd dwy elusen: Mind ac awtistiaeth. Dymuna Wayne, Lowri ac Erig ddiolch i bawb am ddod i ddathlu gyda hwy, yn enwedig am y cardiau, blodau ac anrhegion. Ymlaen rwan am y degawd nesaf!



## BRYNREFAIL
Mrs Lowri Prys Roberts. Ffôn: 870580



**SEFYDLIAD Y MERCHED**
Y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Medi oedd Geraint Lloyd Owen, y Cyn- Archdderwydd.
Rhoddodd sgwrs am ei blentyndod a sut y daeth i fwynhau barddoniaeth a chynghaneddu. Roedd pawb wedi mwynhau ei adroddiad difyr a oedd yn cynnwys straeon am gymeriadau hoffus a gafodd ddylanwad ar ei ddiddordebau.
Dydd Sadwrn Medi 21ain, cynhaliwyd Sioe Grefft a chynnyrch y Ffederasiwn yn y Ganolfan, Llanberis. Bu'n ddiwrnod eithriadol lwyddiannus gyda aelodau ar draws y canghennau wedi cyflwyno dros 250 o eitemau. Bu cystadlu mewn coginio, gwaith llaw, arlunio, gosod blodau, cynnyrch gardd a ffotograffiaeth. Enillwyd y Gwpan am yr aelod gyda mwyafrif marciau yn y Sioe gan Pat Jones gyda Sefydliad y Merched Llanbedr/Talybont yn dod i'r brig o blith canghennau y Ffederasiwn.
Cafwyd pedwar Bwrdd Gwerthu gan y pedwar Grŵp yn y Ffederasiwn yn gwerthu bric a brac, gemwaith a chacennau. Roedd paned a chacen ar gael i bawb yn ystod y Sioe. Roedd y Ganolfan yn safle delfrydol i gynnal y Sioe a'r tywydd ardderchog yn denu llawer i droi i mewn . Mae ein diolch i bawb am yr holl drefniadau a'r gwaith caled a wnaeth yr achlysur yn gymaint o lwyddiant.
Rydym yn falch o gyhoeddi llun o'r arddangosfa enillodd y gystadleuaeth Cwpan y Rhosynnau gan Federasiwn Gwynedd – Caernarfon yn Sioe Amaethyddol Llanelwedd,
Llongyfarchiadau i'n Llywydd a'r tîm o Grwp Eryri am eu gwaith caled.

**YR EGLWYS BRESBYTERAIDD**
Oedfaon Hydref am 5 yr hwyr
6 Parch Marcus Wyn Robinson - Gweinidog
13 Parch Dafydd Ll. Hughes, Caernarfon
20 Parch Carwyn Siddall, Llanuwchllyn
27 Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni

# Cynllun Ysgolion yn Mynd o Nerth i Nerth!

Mae Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam Mudiad Meithrin yn profi cyfnod cyffrous iawn ar hyn o bryd gyda'r cynllun yn ehangu ymhellach. Eleni mae pedair ysgol newydd wedi ymuno â'r Cynllun Ysgolion fis Medi sef Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes; Ysgol Botwnnog, Ysgol Glan y Môr, Pwllheli ac Ysgol Uwchradd Caergybi sy'n golygu bod y cynllun yn ehangu yng Ngogledd Cymru yn benodol.

Mae'r Mudiad wedi gallu cydweithio â'r ysgolion newydd hyn eleni trwy gydweithio â Chynllun TRAC, Gogledd Cymru ac yn falch iawn fod yn cynllun ar gael i ragor o ddisgyblion.

Dywedodd Mr Guto Wyn, Dirprwy Bennaeth Ysgol Glan y Môr: "Mae Ysgol Glan y Môr yn falch iawn o ddod yn rhan o Gynllun Ysgolion Cam wrth Gam gyda Mudiad Meithrin am y tro cyntaf eleni. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle gwych i griw o'n disgyblion ddysgu sgiliau, ennill profiad a llwyddo mewn cymhwyster ym maes gofal plant. Trwy gydweithio gyda Mudiad Meithrin fel hyn rydym yn agor y drws i brofiadau ardderchog i'n disgyblion, yn rhoi'r cyfle iddyn nhw flasu maes sy'n cyflogi nifer dda o bobl yn lleol a hyn i gyd mewn sefyllfaoedd cyfrwng Cymraeg naturiol."

Cyflwynir nifer o gyrsiau amrywiol yn yr ysgolion yn genedlaethol, yn cynnwys Cwrs Lefel 2 (Tystysgrif) Gofal ac Addysg Plant (CACHE), Lefel 3 a Lefel 3 Estynedig Gofal, Dysgu a Datblygiad Plentyn (CACHE). Eleni hefyd rydym yn cyflwyno'r cymwysterau newydd Gofal Plant mewn ysgolion, sef y TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a'r Lefel 3 Gofal, Dysgu, Chwarae a Datblygiad Plant gan City & Guilds/ CBAC. Mae oddeutu 135 o ddisgyblion yn astudio ar y cyrsiau ledled Cymru trwy Gynllun Ysgolion Cam wrth Gam.

Erbyn hyn mae 17 ysgol uwchradd yn rhan o'r cynllun yn genedlaethol ac mae'r cymhwysterau amrywiol yn addas ar gyfer unigolion sydd eisiau gweithio mewn lleoliadau neu wasanaethau gofal, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru. Mae'r cyrsiau yn cynnwys unedau gorfodol a dewisol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc 0-19 oed; gyda chymysgedd o unedau 'gwybodaeth a dealltwriaeth' a 'chymhwysedd a sgil'.

Mae'r cyrsiau Lefel 3 yn rhoi cyfle i ddisgyblion dreulio 1-2 ddiwrnod yn yr ysgol gyda thiwtor profiadol a 2-3 diwrnod ar brofiad mewn lleoliad blynyddoedd cynnar. Mae asesydd yn ymweld â'r disgyblion yn eu lleoliadau yn fisol er mwyn arsylwi a gosod tasgau i'w cyflawni.

Dywedodd Eunice Jones, Rheolwr Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam,
"Rydym yn falch iawn o groesawu ysgolion newydd yn y Gogledd atom fel rhan o'r cynllun ysgolion eleni. Edrychwn ymlaen at gydweithio â nhw gan ddarparu'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg a sicrhau gweithlu cymwys yn ein darpariaethau. Mae'n gyfnod cyffrous iawn o ran cyflwyno'r cymwysterau Gofal Plant newydd ac edrychwn ymlaen yn fawr at hyn."

# CAE'R GORS – AR AGOR

I nifer sydd wedi bod yn holi am hen gartref Cae'r Gors, mae'r lle ar agor bob dydd Mawrth – dyna'r neges sydd angen ei rhannu. Mae CADW wedi ei gymryd, ond y newydd da yw mai'r Parc Cenedlaethol sy'n gyfrifol amdano ar ddydd Mawrth, ac mae'r lle ar agor rhwng 10 a 4. Dion Roberts yw Swyddog Prosiect Cysylltu Comin a Chymuned Uwch Gwyrfai, ac mae'n croesawu unrhyw ddefnydd o'r Ganolfan. Os ydych am drefnu trip i weld Cae'r Gors, bydd yr ymweliad am ddim.

Mae gweithgareddau eisoes wedi cychwyn yno. Yn ystod yr haf, cafwyd sesiwn Rala Rwdins i'r plant, a diwedd Awst cafwyd taith gerdded o amgylch Moel Smytho efo Twm Elias. Roedd yn gyfle i ddysgu am y tirwedd a'r gwahanol fathau o eithin a grug. Daeth nifer o gerddwyr Cymdeithas Edward Llwyd i ymuno â'r criw.

Os hoffech gael gwybod am y gweithgareddau, neu eisiau trefnu gweithgaredd, cysylltwch â Dion ar 01766 772 221.

Hefyd, os hoffech helpu Criw Cae'r Gors i ddatblygu syniadau, rhowch eich enw i Dion, Angharad Tomos ar 01286 882134 neu Norman Williams ar 07771593938

# Cristnogaeth 21

Ydy crefydd yn ddiflastod? Ydy Cristnogaeth wedi colli ei flas? Ydy mynychu capel ac eglwys yn fwrn? Ond eto... oes gyda chi rhyw ysfa am fywyd ysbrydol sy'n berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain? Ydy heddwch, cyfiawnder a chariad yn bwysig i chi?

Mae Cristnogaeth 21 yn rhwydwaith o Gristnogion Cymraeg eu hiaith sy'n cynorthwyo ei gilydd i hyrwyddo ymagwedd ryddfrydol a blaengar at faterion ffydd a chred. Mae cefnogwyr Cristnogaeth 21 yn perthyn i drawstoriad o'r enwadau Cristnogol traddodiadol ac yn cynnwys llawer nad sy'n uniaethu gydag enwadaeth o gwbl.

Mae gan Gristnogaeth 21 wefan sy'n cynnwys gwybodaeth gefndirol, byrddau clebran a chylchgrawn parhaus, Agora, sy'n llawn erthyglau difyr a heriol. Ar y wefan mae modd cofrestru i dderbyn e-neges wythnosol, sy'n gyfle i gnoi cil ar faterion crefyddol y dydd. Gallwch ymuno gyda'r grŵp Facebook hefyd i dderbyn gwybodaeth a newyddion perthnasol am Gristnogaeth ryddfrydol a blaengar yng Nghymru a thu hwnt.

Mae croeso felly i bawb – addolwyr selog, Cristnogion cwsg a phererinion chwilfrydig. Ymunwch â chriw Cristnogaeth 21 ar y daith anturus i ail-feddwl ac i ail-lunio ein hetifeddiaeth Gristnogol ar gyfer yfory.

**Am fwy o wybodaeth ewch i www.cristnogaeth21.cymru ac ymunwch yn y drafodaeth.**

# *CLOCH A GANODD AC A DDIFLANNODD*
## *gan y Canon Idris Thomas*



Cloch y Santes Fair yn Ninorwig ( yr Eglwys fach fel y'i gelwid) lle y'm magwyd a glywais gyntaf . Ar Suliau braf byddai'r clochydd (roedd fy nhad yn un ohonynt) yn sefyll yng nghanol y porth neu'r fynedfa yn tynnu'r rhaff. Roedd yr olygfa o'i flaen yn un gyfareddol gyda'r defaid a'r ŵyn yn pori'n hamddenol ar y tir llwm ac yn y pellter roedd tomennydd mawr Chwarel Dinorwig ac i'r chwith mynydd yr Elidir Fach. Ar nosweithiau clir a thawel yn yr Haf lawer tro, clywn ar y ffordd i'r Eglwys glychau Eglwys Sant Padarn, Llanberis islaw yn canu-rhyw ddeuawd clochyddol.

Ond beth am y gloch a ganodd ac a ddiflanodd? Yn 1958 aethpwyd ati i atgyweirio a harddu'r Santes Fair yn Ninorwig a derbyniwyd amryw o roddion at ddefnydd yr addoldy gan aelodau er cof am anwyliaid. Ar nos Fercher,y 3ydd o Ragfyr cyflwynwyd y rhoddion mewn gwasanaeth arbennig ac yn bresennol roedd yr Hybarch Gwynfryn Richards a oedd yn Archddiacon Bangor ar y pryd. Ar waelod y rhestr rhoddion ceir hyn –"derbyniwyd hefyd gloch o Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen-am drwsio a chludo'r gloch £2-10s". Wel pam yn y byd rhoi cloch o Eglwys gyfagos yn nhŵr yr Eglwys yn Ninorwig a chloch eisoes yno? Mae'r ateb yng nghofnodion cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar Ebrill 26ain 1960-"Eglurodd y Ficer am yr apêl o blwyf St.Livingstone yn Zambia am gloch. Awgrymodd ein bod yn rhoi cloch y Santes Fair i'r plwyf hwn. Roedd eisoes wedi ysgrifennu at Ficer St.Livingstone ac wedi cael atebiad yn datgan balchder mawr pe baent yn derbyn y gloch. Ar gynnig W.Rees Foulkes ac amryw yn cefnogi pleser fyddai rhoi'r gloch i'r plwyf yn Zambia a oedd mawr angen un".

CANU CLOCH DINORWIG YN ZAMBIA

Aeth y gloch i Zambia ar long o Lerpwl. Roeddwn wedi sylwi yng nghyfrifon Plwyf Llandinorwig yn y cyfnod hwn fod swm o arian bob blwyddyn yn mynd tuag at "U.S.P.G. (sef cymdeithas genhadol) –St.Augustine, Livingstone,Zambia". Roedd y drws wedi ei agor i mi a chysylltais â'r Gymdeithas Genhadol a daeth gair yn ôl oddi wrth Mrs.Jenny Humphreys a oedd yn ymwneud â Chenhadaeth Byd o'i swyddfa yn Wells, Gwlad yr Haf. Soniodd yn gyntaf fod gan Esgobaeth Caerfaddon a Wells yr hyn a elwir "cysylltiad partneriaeth" gyda phump o Esgobaethau Anglicanaidd yn Zambia a chyda cymorth ffrindiau yn yr Eglwys yn Zambia roedd wedi llwyddo i gael gwybodaeth am y gloch o Ddinorwig. Ond roedd y geiriau fod ganddi newyddion da a newyddion drwg i mi yn peri anesmwythyd. Cafodd wybodaeth o hanes plwyf Livingstone yn ysgrif y diweddar Barchedig Denys Whitehead a hynny yn garedig trwy law ei briod Margaret sydd o hyd yn byw yn Livingstone. Dyma ddywedodd " gerllaw Eglwys St.Livingstone yr oedd carchar ac yn 1964 codwyd clochdy i'r addoldy gan y carcharorion. Cost y cyfan oedd £7/17/8. Roedd y gloch a osodwyd yn y clochdy wedi ei rhoi gan Eglwys yng Nghymru. Cysegrwyd y clochdy gan yr Archesgob Oliver ar y 26ain o Orffennaf 1964 ac roedd yn ddydd o ddathlu mawr". Cysylltodd Mrs Jenny Humphreys ag Archddiacon presennol yr ardal sef Emmanuel Chikoya ac un a fu yn offeiriad ar St.Augustine a chanddo daeth newydd trist. Yn 1996 cafodd y gloch a ddaeth o Ddinorwig ei dwyn ac un rheswm am hyn meddai oedd fod tŷ'r gofalwr oedd i'w godi ger yr Eglwys heb ei gwbhau ac felly roedd diogelwch ar y safle yn wan. Roedd yn ddrwg iawn gan yr Archddiacon fod y newyddion yn hynod siomedig ond o leiaf roedd cynulleidfa St.Augustine wedi cael defnydd o 30 mlynedd o gloch Dinorwig. Mae'r clochdy o hyd yno.Mae gan rhai plwyfi yn Esgobaeth Caerfaddon a Wells gysylltiad agos â phlwyf St.Augustine ac mae sawl ymweliad rhwng y plwyfi er y pellter wedi digwydd a bydd hyn yn parhau.Bum yn cysidro ymuno â thaith i Zambia gyda hwy ond o glywed am ddiflaniad y gloch diflannodd yr awydd hwnnw hefyd. Un newydd cadarnhaol yw fod plwyf St.Augustine wrthi'n sefydlu ysgol mewn eiddo a roddwyd i'r plwyf a hynny yn bennaf i addysgu plant bregus o fewn y gymuned dlawd hon. Yn ystod y misoedd diwethaf dan adain Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, bum yn arwain grŵp egniol a chreadigol o wahanol asiantaethau o amgylch cymuned Dinorwig fel rhan o waith ymchwil i safle treftadaeth llechi'r byd. Rhydd hanes cloch Eglwys Dinorwig ogwydd ryngwladol i'r cyfan ac mae diddordeb eisoes i sefydlu perthynas byw â phlwyf Livingstone yn Zambia bell.

DISTAWRWYDD Y TYRAU?

Rhyfeddol yn wir fod cloch y Santes Fair Dinorwig a alwodd y gymuned chwarelyddol ynghyd am gynnifer o flynyddoedd wedi galw hefyd y brodorion yn Livingstone bell at ei gilydd am dros ddeng mlynedd ar hugain. Wrth glywed clychau un Eglwys yn canu un bore Sul medd y Parch.John Edward Williams-

"O, torred eich deng munud
Yn rymus ar ein clyw:
Tystion yw eich tafodau
Chwithau i'r Arglwydd Dduw".

Gorffennaf gyda geiriau y Canon R.Glyndwr Williams yn 1998 a oedd yn gofalu am Eglwys y Santes Fair yn Ninorwig pan aeth y gloch i Zambia. Mor wir a dirdynnol yw ei eiriau heddiw-"Mae'r gloch yn galw o hyd ond llai a llai yn ei hateb. Gan hynny gadawer i'r tyrau ddistewi, un yma ac un acw, nes na ddaw'r un dinc o'r gorwel i'n haflonyddu. Rhyw ddiwrnod fe glywn y distawrwydd,a gofyn beth sy'n bod".

# Dringo Everest …
# … o Lanberis




Cafodd Glyn Miller-Jones o Ddeiniolen ei ysbrydoli gan ffrindiau a gwblhaodd her Y Tri Copa ar ddechrau'r haf, a phenderfynodd ei fod yntau eisiau gwneud gwahaniaeth yn y gymuned drwy dynnu sylw a chodi arian tuag at ddwy elusen sydd yn agos iawn at ei galon sef Ambiwlans St Johns' Cymru (ble mae Glyn yn gwirfoddoli ac yn aelod o gangen Llanberis) ac Ambiwlans Awyr Cymru.

Aeth ati i drefnu her iddo fo'i hun, a daeth i fyny efo'r syniad Sialens Wyddfa/Everest. Y nod oedd cerdded i fyny ac i lawr yr Wyddfa i uchder Everest sydd yn ychydig dros 29000 o droedfeddi

Cwblhaodd ei her dros dri diwrnod ar benwythnos Gwyl y Banc yn mis Awst. Cyrhaeddodd y nod drwy gerdded 10 a hanner gwaith i fyny ac i lawr y Wyddfa. R'oedd yn lwcus iawn o dywydd braf yn ystod ei her.

Bu'n llwyddianus iawn gan godi £2356 am ei ymdrechion.

Fe welwch Glyn yn cyflwyno ei gyfraniad i aelod o Helimed 61, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn Maes Awyr Caernarfon. Yn sydyn iawn ar ol y cyflwyniad yma cafodd yr Ambiwlans Awyr ei galw allan i ddigwyddiad achub bywyd arall.

Meddai Alwyn Jones, Cydlynydd Cymunedol yr Elusen "Diolchwn o galon i Glyn am feddwl am yr Elusen. Bydd y cyfraniad yn rhan allweddol or £6.5miliwn sydd ei angen yn flynyddol i gadw 4 hofrenydd yng Nghymru yn yr Awyr."

Fe'i disgrifir yn 'Elusen yng Nghymru i Bobl Cymru'.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163 www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER · Menter Môn · Cyngor Gwynedd Council · ERDF · Llywodraeth Cymru Welsh Government

## TEITHIAU CERDDED MIS HYDREF

GWENER 11 HYDREF 2.00yp

HANESION PENRHOSGARNEDD O'R OES EFYDD (2½ MILLTIR)

CYCHWYN: CYLCHFAN O FLAEN YSBYTY GWYNEDD

EITHA HAWDD

MERCHER 16 HYDREF 2.00yp

LLANRUG: HANESION PANT IFAN A LLANRUG YR OESOEDD CANOL (HYD AT 3 MILLTIR)

CYCHWYN: CAE CHWARAE GLAN MOELYN

CYMEDROL. LLWYBR CYHOEDDUS. SGIDIAU CERDDED.

MAWRTH 29 HYDREF 10.00yb

HANESION BETHEL: TERFYSG A TRASIEDI (1½ MILLTIR)

CYCHWYN: TU ALLAN I YSGOL BETHEL

HAWDD.

CARREG FILLTIR I'R CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD: TAITH RHIF 250

Rydym yn brysur anelu at ein taith gerdded rhif 250 ers cychwyn y cynllun yn mis Mawrth 2013. I ddathlu hyn rwyf yn awyddus i drefnu daith cerdded o'ch dewis chi. Hynny yw, taith efallai rydych wedi methu, eich hoff daith neu hyd yn oed os gennych syniad ar gyfer daith arbennig hoffwch i ni ei drefnu. Gadewch i mi wybod eich syniadau. Rhoddaf eich syniadau i gyd mewn het a tynnu allan yr enillydd …..

Cysylltwch a Gareth Roberts yn Menter Fachwen drwy e-bostio: garethroberts754@yahoo.co.uk

# Llechi Cymru - Sesiynau Gwybodaeth ac Ymgynghori

Rydym ar hyn o bryd yn cynnal sesiynau ar gyfer ymgynghori ar Gynllun Rheoli Llechi Cymru. Mae'r Sesiynau yn cyd-fynd gyda'r arolwg Llechi Cymru sydd ar lein ac ar gael hyd at 30 Medi, 2019

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriadau-byw/Ymgynghoriad-Cynllun-Rheolaeth-Safle-Treftadaeth-y-Byd.aspx

Bydd y rhain yn cynnwys sesiwn galw heibio 2 awr gyda chyfle i'r cyhoedd ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddyn nhw ynglŷn a'r Cynllun Rheoli, ac yna bydd cyflwyniadau ar wahanol agweddau ar Lechi Cymru am 6.00 o'r gloch.

Gweler isod fanylion y Sesiynau lleol sydd ar y gweill – byddwn yn ddiolchgar pe bai modd i chi rannu gyda'ch cysylltiadau.

26ain Medi rhwng 4.00 y pnawn a 7.00 yr hwyr yn Tŷ Elidir, Deiniolen.

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 20fed o Awst 2019

Clwb Pwldroed Llanrug Unedig

Derbyniwyd adroddiad gan Mr Emyr Jones, Ysgrifennydd y Clwb parthed trafferthion maent yn eu wynebu yn dilyn rheolau newydd sydd yn dod i rym gan Gymdeithas Pêl Droed Cymru. Eglurodd na fyddai'r clwb yn gallu chwarae yn y gynghrair bresennol oherwydd nad oeddynt yn gallu cyrraedd y gofynion newydd am fod y cae yn rhy fach a fod angen ei ehangu. I'r perwyl hyn, adroddwyd fod y clwb wedi bod mewn cysylltiad a pherchennog y tir ond nid oedd yn fodlon helpu. Nodwyd pe na fyddai'r clwb yn gallu cydymffurfio a'r gofynion, yna byddent yn disgyn i lawr i Gynghrair Gwynedd. Dywedodd fod y clwb yn awyddus, os yn bosib, i gael cymorth y Cyngor Cymuned.

Cafodd yr aelodau gyfle i holi Mr Jones am y newidiadau a sut byddent yn debygol o effeithio ar glybiau eraill ac adroddwyd fod nifer o glybiau eraill yn yr un sefyllfa.

Penderfynwyd i gysylltu a Chyngorau Cymuned / Tref yr ardaloedd ble mae clwb pêl droed yn debygol o'i effeithio gan y rheolau yma a gofyn iddynt gysylltu a'r clwb pêl droed i geisio eu cefnogi. Hefyd penderfynwyd ysgrifennu at Gymdeithas Pêl Droed Cymru i ofyn iddynt ystyried newid neu ohirio'r rheolau ac am eglurhad dros y penderfyniad.

Annibyniaeth i Gymru

Penderfynwyd datgan fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi annibyniaeth i Gymru.

Cyfethol Aelodau newydd i'r Cyngor

Rhoddwyd cyfle i ddau ymgeisydd arall, sef Iola Parry a Gwion Llwyd, roi gwybodaeth am eu cefndir a'u profiad a chafwyd sgwrs ynglyn a gwaith y Cyngor. Roedd y Cyngor wedi cyfweld un ymgeisydd yng nghyfarfod Gorffennaf ond nid oedd hi'n bosib cyfethol oherwydd fod dau ymgeisydd arall wedi dangos diddordeb. Diolchwyd i'r ymgeiswyr am ddatgan diddordeb i fod yn aelodau o'r Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cyfethol Iola Parry a Gwion Llwyd i fod yn aelodau o'r Cyngor ac i gysylltu a'r trydydd ymgeisydd i'w hysbysebu o hyn ac i ddiolch iddi am ddatgan diddordeb.

Adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones (Cyngor Gwynedd)

Roedd amryw wedi gofyn am groesfan pelican o'r safle bws ger Hafan Elan i'r ochr arall ger y gwaith cerrig beddi. Mae Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, am edrych i mewn i hyn.

Y Fynwent

Roedd y pwyllgor wedi cyfarfod yn y fynwent ar 31 o Orffennaf 2019 ac wedi darganfod 7 carreg bedd a oedd yn rhydd ac a allai ddisgyn ar rywun gan achosi niwed difrifol. Cytunwyd ar y noson i weithredu un o reolau'r fynwent oedd yn rhoi caniatâd i'r Cyngor roi'r cofebau i orffwys. Penderfynwyd hefyd i gael rhywun i sicrhau fod y gweddill o'r cofebion ddim yn sigledig gyda pherygl o ddisgyn. Yn dilyn cario allan yr asesiad yma darganfuwyd fod 7 carreg arall yn rhydd ac fe'i rhoddwyd i orffwys.

Derbyniwyd un gwyn am yr hyn a wnaethpwyd ac fe ymatebwyd i'r gwyn gan y Clerc.

Yn unol a rheolau'r fynwent, ble mae angen i'r cyngor gymryd camau fel hyn, y Cyngor sydd yn gyfrifol am godi'r cofebion yn ôl i fyny ac wedyn ceisio casglu ad-daliad gan deulu perchennog y garreg. Penderfynwyd i gael prisiau ar gyfer y gwaith oddiwrth seiri meini cyfagos gan sicrhau byddai'r cofebion yn cael eu gosod i safonau cyfredol BRAMM.

Derbyniwyd cwyn fod y contractwr sydd yn torri gwair yn y fynwent wedi gyrru peiriant torri gwair ar draws bedd ble roedd y teulu wedi gwasgaru hadau gwair ac wedi rhoi pridd newydd yno.

Penderfynwyd i gydymdeimlo a'r teulu ar y digwyddiad anffodus yma ac i ysgrifennu at y contractwr i'w hysbysu o'r gwyn a gofyn iddo sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto.

Y llwybr rhwng Cwm y Glo a Glyntwrog, Llanrug.

Adroddwyd fod y llwybr yn cau i fyny oherwydd tyfiant ac yn llithrig ar gyfer rhedwyr a cherddwyr. Penderfynwyd i gysylltu a Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt dorri'r tyfiant a glanhau'r llwybr.

Ysbwriel

Adroddwyd fod cwynion yn cael eu derbyn yn dilyn i'r lori casglu ail-gylchu a sbwriel fod o amgylch gyda 'sbwriel yn cael ei golli o'r biniau ar y llawr. Penderfynwyd i gysylltu a Chyngor Gwynedd i ddwyn eu sylw i hyn.

Problem parcio

Adroddwyd fod cwyn wedi'i dderbyn ynglyn a pharcio ger y caffi sydd wedi ei leoli ger 1 Arfon Terrace, Llanrug a gwelwyd luniau o wahanol gerbydau oedd wedi parcio ar y ffordd. Penderfynwyd i gysylltu a Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn amlinellu'r gwyn ac i ddwyn y mater gerbron Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd.

Cais Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i ddiwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio ar y Tir ger Bryn Celyn, Lon Groes, Llanrug er mwyn ymestyn yr amser cyn cyflwyno'r materion a gadwyd yn ol.

Y Clwb Ieuenctid

Adroddwyd fod dau berson wedi ymgeisio am swydd gyda'r clwb ieuenctid yn Llanrug ac ein bod ar hyn o bryd yn disgwyl dyddiad ar gynnal cyfweliad. Nodwyd mai penderfyniad y Cyngor mewn cyfarfod gyda swyddogion o'r gwasanaeth ieuenctid oedd fod angen tri person yn gyflogedig yn y clwb i osgoi gorfod cau pan fod un aelod yn methu bod yn bresennol. Penderfynwyd i gysylltu a Chyngor Gwynedd i leisio pryder.

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
CWÔT DI DA
22 BLWYDDYN O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Ebost- lisa.huw@btinternet.com

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod yr 2ail Gorffennaf 2019
Cofnodion Cyfarfod 4ydd Mehefin 2019
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir
Materion o'r cofnodion
Parcio Bethel – Yn dilyn sawl cwyn, mae wedi mynd yn amhosib gweld ar rhai o gonglau a mynedfa allan I lonydd o sawl cyfeiriad oherwydd unai parcio neu gordyfiant. Mae plant yn amlwg yn chwarae gyda beics, ac nid bob amser mae yn hawdd eu gweld oherwydd yn naturiol, daw plant o bob cyfeiriad heb feddwl. Yn aml iawn, faniau gwaith sydd yn cael eu parcio ar ochor strydoedd neu gonglau, ond beth yw'r ateb? Mae hyn yn amlwg iawn yn arbennig yn Tre Gof, tu allan i'r hen Eglwys Sant Teilo a Cylchfan cefn. Yn ychwanegol I hyn mae yna yrru ofnadwy yn Saron, ac ni fasa gan blentyn ddim gobaith. Ysgrifennu llythyr at diogelwch ffyrdd Y Cyngor yn gofyn am ganllawiau ynglyn a hyn, ac os oes posib cael y tyfiant yn y manau hynny dan reolaeth.
Golau Ffordd Cyffordd Brynrefail – Cysylltodd y clerc a'r adran golau stryd Y Cyngor i holi ymhellach i amcanbris a dderbyniwyd. Yn dilyn trafodaeth ac esboniad fod angen rheolaeth ffordd 3 ffordd yno, rydym yn dallt pam mae y bris mor ofnadwy o uchel. Search hynny, mae'r lôn a'r groesfan dal yn beryg. Mae'r llwybr bellach yn lwybr aml bwrpas, ac nid yw'r goleuadau sydd yno yn berthnasol dim mwy. Felly y clerc i yrru llythyr o adroddiad am hyn i'r Cyngor Sir.
Llwybr Carreg y Garth – Derbyniwyd esboniad ac adroddiad trylwyr yn dilyn ymweliad gan swyddog o'r Cyngor Sir. Aros i weld sut fydd y llwybr nes ymlaen.

Gohebiaeth a materion eraill
Parc Chwarae Clwt y Bont – Derbyniwyd neges gan Gwawr fod y llawr o dan y siglen wedi cael difrod, ac wedi ei godi i gyd. Y clerc i yrru llythyr a lluniau o'r ardal I'r Cyngor Sir.
Bwrdd Dwr – Mae yna waith yn mynd ymlaen yn Seion dros y misoedd nesaf. Mae Bwrdd Dwr wedi cael caniatad cais cynllunio i adeiladu gwaith trin dwr gwastraff Newydd. ac mae'r gwaith eisioes wedi cychwyn yno yn barod.
Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig – Yn dilyn archwiliad, mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflwyno cyfyngiadau parcio ar gongl y ffordd ger Tai Arthur yn Penisarwaun.

Cynllunio
Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:
Ty Cefn, Waun Pentir – Codi tŷ deulawr Newydd a mannau parcio.
Y Bwthyn, Fron Chwith – Ail osod lolfa haul gyda estyniad ar yr un arwynebedd llawr.
Bryn Difyr, Bethel – Codi tŷ fforddiadwy a darparu llecynnau parcio.
LLys Brynrefail – Adnewyddu'r mynedfa bresennol a chodi wal Newydd.
Tir Ger Llyn Padarn – Codi cerflun 2 medr o uchder. Ni does gan Y Cyngor wrthwynebiad I osod cerflun, cyn belled a bod yn gerflun fydd yn gweddu i'r ardal. Nid oes gan y cerflun yma dan sylw le i weddu yn ardal Chwarel Dinorwig, nac yn addas o flaen Ysbyty'r Chwarel.
Adroddiad ar Gynllun Treftadaeth Ardal Chwarel Dinorwig
Adroddiad Idris:
"Eleni (2019) trefnais pedair taith yn Ninorwig ar Fawrth 13eg,a 28ain. Ebrill 11eg a Mai 24ain. Ar y daith gyntaf, aethom i Chwarel Dinorwig, yr ail daith i Gymuned Pen Draw Dinorwig, y trydydd i'r Barics a'r olaf Cymuned Dinorwig. Ysgrifennais yn llawn am bob taith ynghyd â syniadau a chynlluniau I'w gweithredu o fewn Treftadaeth Llechi'r Byd. Gan fy mod yn frodor o Dinorwig roedd hyn yn fy alluogi i roi darlun byw ac hanesyddol am y gymuned arbennig hon.
Ar y teithiau o'r Cyngor Cymuned roedd Lowri Hughes, Gwawr Wyn Roberts ac Elfed Williams, a chawsom gwmni hefyd o Gyngor Gwynedd Hannah Jane Joyce, Uwch Swyddog Adfywio Strategol, Gwenan Meleri Pritchard, Cydlynydd Llechi Cymru, a Rhian Elin George, Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cadi Iolen o'r Amgueddfa Lechi a Mari Beynon Owen, ymgynghorydd Llawrydd-Awdur Cynlluniau Cynefin Llechi Cymru. Criw egniol yn llawn brwdfrydedd ac afiaith a diolchaf am eu cwmni hyfryd ar y teithiau. Rhoddais fy awgrymiadau personol ar ddiwedd pob taith ac at hyn mae Gwawr wedi casglu holl syniadau'r grŵp yn ogystal.
Rydych oll fel Cynghorwyr ar y Cyngor Cymuned wedi derbyn copiau o'r daith ac mae'r cyfan bellach yn nwylo y rhai sy'n delio a Safle Treftadaeth y Byd. Teimlaf y dylai'r Cyngor gysylltu ag Adran Treftadaeth Llechi o fewn Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt (er gwybodaeth) yn dilyn yr holl deithiau beth yw'r cam nesaf.
I mi yn bersonnol, bu'n dipyn o waith mewn cyfnod byr, ond roeddwn eisiau ei wneud yn iawn ac rwyf yn hapus gyda'r canlyniad.
Hawlfraint Cyngor Cymuned Llanddeiniolen a minnau yw'r cyfan. Roedd angen i'r cyfan i fod i mewn cyn diwedd Mehefin ac mae hynny wedi ei wneud. Hyd nes y clywn fod yr ardal wedi llwyddo i gael Statws Treftadaeth Llechi'r Byd ni ddylid yn gyhoeddus gyhoeddi manylion y teithiau tan hynny.

O gwmpas y Bwrdd
Iaith a Tai – Yn dilyn newidiadau yn y ffordd mae tai cymunedol yn cael eu penodi I bobl
Daeth cais i roi gwahoddiad i Gareth Parry Adran Opsiynau Tai i ddod i'r cyfarfod i roi sgwrs ar y polisi.
Penisarwaun - 3ydd Diffriblydd yn ei le yn Penisarwaun, a pedwerydd ar ei ffordd. Hefyd maent wedi cael arwydd 30mya Newydd ynghyd ac wedi cael ail beintio llinellau yn Tan y Gaer.
Bethel – Mae trigolion Tan y Buarth wedi rhoi cais yn nodi fod y Cyngor Sir wedi tarmacio dwy ochor i balmant, ond heb wneud y darn concrit yn canol, sydd ar y gongol ac yn anwastad. Tybed oes modd dod yn ôl i wneud hyn yn y dyfodol agos.

FFISIOTHERAPI ERYRI PHYSIOTHERAPY
Asesiad a thriniaeth arbenigol a fforddiadwy ar agor nawr.
Specialised and affordable assessment and treatment available.
Cyslltwch am fwy o fanylion
Contact for further information:
Facebook: @ffisioeryriphysio
Ebost / E-mail: info@ffisio-eryri-physio.co.uk
Ffôn 07387390465
Canolfan Ddringo Beacon Climbing Centre
Stâd Diwydiannol Cibyn Industrial Estate
Caernarfon. LL55 2BD
www.ffisio-eryri-physio.co.uk


Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## *Cyngor Cymuned Llanberis*

COFNODION CYFARFOD MIS GORFFENNAF 2019:
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher y 10fed o Orffennaf, 2019 am 7.00 y.h.
CROESAWU cynrychiolwyr
Canolfan Rhyngwladol Adnoddau Daear:
Cafwyd cyflwyniad diddorol gan Jane a Mads Huuse sy'n byw yn Waunfawr. Y nhw ac eraill a sefydlodd CRhAD (International Earth Resource Centre - IERC), sy'n cydweithio gyda chwech o brifysgolion yn cynnwys Prifysgol Bangor. Eu breuddwyd ydi creu canolfan addysg ac ymwelwyr yng Nglyn Rhonwy ac eisoes cafwyd trafodaeth pur adeiladol gyda chynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r safle.
Pryder am ddyfodol y ddaear, neu'r blaned, sydd tu ôl i'r freuddwyd o greu'r ganolfan, pryder am newid hinsawdd ac am adnoddau daear sy'n prinhau. Mae angen datrys rhai o'r heriau a hynny ar fyrder, meddai'r ddau, sydd wedi arbenigo ym myd daeareg ac ecoleg. Mae nhw'n credu bod yn rhaid hyrwyddo ac arwain i greu byd a ffordd o fyw sy'n llawer mwy cynaliadwy. Byddai'r ganolfan yn gwneud hynny trwy gyfrwng, gwyddoniaeth, treftadaeth a chelf.
Soniwyd cryn dipyn am faint y ganolfan a pha mor atyniadol fyddai hi i bobl leol ac ymwelwyr, y nod meddir fyddai denu hyd at 300,000 o bobl y flwyddyn yma os yw'r lle i fod yn hunan gynhaliol. Byddai'r ganolfan yn cael ei rhedeg er ei mwyn ei hun a'r gwaith ac nid er creu elw i gyfranddalwyr, a byddai'n cynnig nifer o swyddi da a gwahanol.
Mewn trafodaeth eglurwyd y byddai tri chan mil o bobl yn nifer enfawr i ardal sydd eisoes ar adegau yn gwegian o dan bwysau ymwelwyr. Mae parcio eisoes yn broblem, fel y mae trafnidiaeth gyhoeddus a chyflwr y ffyrdd. Roedd y cyflwynwyr yn derbyn y pryderon hynny, ac er mwyn sicrhau cefnogaeth leol yr oedden nhw wedi dod i gyflwyno'i gwaith mor gynnar er mwyn sicrhau bod cefnogaeth a sut i osgoi gwneud camgymeriadau. Mae'n ymddangos, yn ôl yr hyn ddywedwyd, eu bod yn frwd i gynnwys y trigolion lleol yn eu cynlluniau.
Eglurodd y ddau y byddai'n gryn her i ddarganfod tua £100 miliwn o bunnau i ddatblygu a chreu y ganolfan. Roedd 80 mil o bunnau wedi ei sicrhau i roi'r cynllun ar waith, ond rhybuddiwyd bod hwn yn gynllun a allai weithio mewn ar nifer o safleoedd eraill yng ngwledydd Prydain, ond mai Llanberis, ar hyn o bryd, oedd dewis cynta'r cyflwynwyr. Wedi tri chwarter awr o gyflwyniad a thrafodaeth daethpwyd a'r cyfarfod i ben gydag addewid o gadw mewn cysylltiad â'r Cyngor, ac efallai dod yn ôl tua diwedd y flwyddyn neu ddechrau'r nesaf i sôn sut mae'r gwaith yn datblygu. Diolchwyd i'r ddau gan y Cadeirydd.
1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:
Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Bethan Holding, Iwan Harding, Aneuryn Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.
Ward Peris: Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
Ymddiheuriadau: Nicola Brown,
2 DATGAN BUDDIANT:
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.
3 CADARNHAU COFNODION:
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 12fed o Fehefin, 2019 fel rhai cywir.
4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:
1. Coed Doctor:
Cafwyd ymateb hynod siomedig i'r ail gyfarfod i drafod dyfodol y coed. Ar wahân i Bob Griffiths o CG a chynrychiolydd o fudiad sy'n cefnogi coedydd cymunedol, dau o drigolion y pentref yn unig oedd yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd KMJ. Er mwyn ceisio creu diddordeb pellach dywedodd BG y byddai'n trefnu un neu ddau o weithgareddau yn y coed yn y dyfodol, mwy na thebyg ar ôl cyfnod gwyliau'r ysgol.
2. Cae Chwarae Gwaith Nwy (Cae Gas):
Hyd yma wnaed dim gan CG i gadw'r defaid allan.
3. Archwiliad Blynyddol:
Adroddwyd bod yr Archwiliad Blynyddol Mewnol wedi ei gwblhau gan Adran Archwilio CG a'r holl waith papur wedi ei anfon ymlaen i gwmni BDO yn Southampton ar gyfer yr Archwiliad Allanol.
Roedd gan yr Archwiliwr Mewnol nifer o argymhellion.

- Roedd angen blaen lythrennu bonion siec gan yr arwyddwyr.
- Methiant i adnabod gwariant Rhan 137 ar wahân i bwerau gwariant eraill. (Roedd yr holl wariant yma o dan bennawd penodol ac o fewn y ffiniau gwario blynyddol).
- Methiant i gyflwyno cofrestr asedau cyflawn i gynnwys dyddiad meddiant a'r gwerthoedd cyfredol a gwreiddiol yr ased.
- Methiant i ddarparu cytundeb cyflogaeth gyda thermau ac amodau clir i'r Clerc
- Gwefan heb ei sefydlu sydd yn golygu bod y Cyngor yn methu cyhoeddi yr holl wybodaeth angenrheidiol yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Fel arall bodlonwyd yr holl reoliadau ariannol.
Bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn cyflwyno cytundeb cyflogaeth yn mis Medi, ac mae'r Clerc i gyflwyno tudalennau ar gyfer y Wefan yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Nid ar chwarae bach mae cyflwyno yr holl fanylion y gofynnir amdanynt ar y Gofrestr Asedau, a bydd angen dangos gwariant Rhan 137 mewn dull gwahanol y flwyddyn nesaf.
Derbyniwyd yr adroddiad.
4. Difrod i Bont Afon Dudodyn:
Cafwyd ymateb gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE). Yn ôl llythyr a dderbyniwyd oddi wrth y Prif Weithredwr, roedd APCE a CG o'r farn nad oedd y bont wedi ei lleoli ar lwybr cyhoeddus a'i bod tu allan i i dir mynediad agored. Felly roedd yn anodd i'r Awdurdod gyfiawnhau gwariant i osod pont newydd. Serch hynny roedd na drafod wedi bod gyda'r BMC (Cyngor Mynydd Prydeinig) a chyngor arbenigol wedi ei sicrhau a hyd yn oed manyleb gwaith ac amcan bris wedi ei baratoi i adeiladu pont a'i gosod ar y safle, ond wnaed dim arall.
Holwyd a fyddai'r Cyngor hwn am gydweithio ac y byddai unrhyw gefnogaeth ariannol yn cael ei werthfawrogi.
5. Llwybr Bwrdd Coed Nantperis:
Yn ôl y llythyr uchod bydd Warden lleol yn asesu'r gwaith angenrheidiol i drwsio'r llawr coed. Dywedodd y Clerc fod peth gwaith trwsio wedi ei gwblhau, ond fod tyllau pellach erbyn hyn. Mae'r glaswellt a'r mieri yn dal heb eu torri ar ymylon y llwybr.
6. Gwasanaeth Sherpa:
Mae APCE, meddir, yn ymwybodol o'r problemau parcio ac yn comisiynu archwiliad parcio a thrafnidiaeth ehangach er mwyn ceisio datrys y problemau. Y bwriad fydd datblygu system o barcio a thrafnidiaeth fyddai'n addas ar gyfer niferoedd sy'n dod i'r ardal. Addawyd cysylltu maes o law â'r cymunedau lleol mewn perthynas â hyn.
Cyfeiriwyd at y tacsis sy'n rhesi yn y maes parcio ac yn cymeryd cwsmeriaid y Bws Sherpa. Yn ôl APCE roedd hyn yn datrys problem bysiau oedd yn llawn, weithiau yn hwyr ac ar adegau yn anaml. Yn sgil hynny roedd y cwmniau tacsi wedi manteisio ar eu cyfle, ac roedd yn wasanaeth oedd ei angen ar brydiau. Yn ôl y Prif Weithredwr fyddai atal y tacsis ddim yn datrys y broblem bresennol, ond roedd yn cydnabod fod angen i'r bysiau gwrdd â'r galw. Doedd dim awgrym pryd y digwydd hynny.
Yn yr un llythyr dywedwyd bod yr Awdurdod wedi llwyddo'n ddiweddar i gael arian oddi wrth Croeso Cymru i wella'r toiledau a chreu gorsaf bws yn y maes parcio yn Nantperis.
Canlyniad trafodaeth a ddilynodd oedd gresynu nad oedd y gwasanaeth bws yn ddigonol i gyfarfod y galw, a mynegwyd pryder eto fod incwm yn cael ei golli a allai fygwth parhad y gwasanaeth. Croesawyd yr archwiliad parcio a thrafnidiaeth yn ogystal a'r bwriad i wario ar y toiledau a'r orsaf bws. Holwyd a oedd angen biniau sbwriel anferth yn y maes parcio a phenderfynwyd gofyn i'r Clerc holi ymhellach ynglŷn a'r bwriad ynglŷn a'r bont dros Afon Dudodyn.
7. Cae Chwarae Min y Llyn:
Er wedi ei archebu gan CG nid oedd distyn y siglenni wedi cyrraedd.
8. Meinciau:
Adroddwyd bod y meinciau coffa wedi eu glanhau a'u paentio, ond adroddwyd fod tair mainc yn dangos ôl henaint a difrod ger Maes Padarn. Cytunwyd i'w trwsio.
9. Clirio Sieciau:
Adroddwyd bod ymchwiliad pellach wedi bod i'r siec sylweddol oedd heb ei chlirio, er bod derbynnydd y siec wedi derbyn ei arian. Roedd y bai rhywle rhwng dau fanc. Banc derbynnydd y siec heb hawlio'r arian o fanc y Cyngor. Penderfynwyd nad oedd dim arall y gallai'r Clerc ei wneud ac mai mater i'r ddau fanc oedd hi bellach.
5 MATERION ERAILL:
1. Cynnig bod y Cyngor hwn yn cefnogi annibyniaeth Gymreig:
Y cynnig oedd: 'O sylwi ar yr ymchwydd diweddar o gefnogaeth i annibyniaeth gan ddinasyddion Cymru, gan gynnwys yr orymdaith dros annibyniaeth yng Nghaerdydd ar Fai 11eg, 2019 a ddenodd dorf o filoedd a'r bleidlais o gefnogaeth gan nifer cynyddol o gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Cynigir fod Cyngor Cymuned Llanberis yn cefnogi'r ymgyrch dros annibyniaeth i Gymru. (GE / RhaG)
Wedi trafodaeth ddeallus cafwyd pleidlais gyda'r mwyafrif o blaid y

cynnig. Gwnaed cytundeb ymlaen llaw y byddai pleidlais y mwyafrif yn cario, a gofynnwyd am gofnodi enwau. Roedd 8 o blaid y cynnig. BH oedd yr unig un a bleidleisiodd yn erbyn y cynnig ac fe ymataliodd HLJ a IH eu pleidlais.

6 GOHEBIAETH:

1. CG - Cau Ffyrdd:

Cafwyd nifer o rybuddion gan y Cyngor bod ffyrdd eto i'w cau oherwydd rasys a digwyddiadau yn yr wythnosau nesaf. Soniwyd hefyd bod bwriad gan gwmni sy'n trefnu nifer o'r rasys yma i gynnal Ras yr Wyddfa ychwanegol y flwyddyn nesaf. Bwriad y ras honno ydi herio y rhedwyr i redeg i fyny ac i lawr y mynydd mor aml a phosibl mewn pedair awr ar hugain. Mynegwyd eto bryder bod cynydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau, ac am effaith digwyddiadau tebyg i'r ras hon ar lwybr y mynydd. Penderfynwyd anfon gair at APCE i wrthwynebu'r ras ac i holi oedd dim modd cael gwell rheolaeth ar ddigwyddiadau poblog oedd yn andwyol i'r amgylchedd.

2. Cae'r Ddôl:

Cafwyd adroddiad nad oedd gwair y cae wedi ei dorri ar gyfer mabolgampau Ysgol Dolbadarn a phenderfynwyd gwneud ymholiadau gyda pellach gyda CG am y gwaith o gynnal a chadw'r cae i ddefnydd pentrefol.

3. APCE - Ymgynghoriad:

Derbyniwyd gwybodaeth am Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft CCA 4: Tai Fforddiadwy. Caniateir hyd at 5yh ar y 18fed o Fedi i ymateb.

7 CYNLLUNIO:

APCE:

NP3/15/75D - 'Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio NP3/15/75C (dyddiedig 31/07/2017) am fframiau ffenestri alwminiwm wedi ei lliwio yn lle'r rhai pren sydd wedi ei gymeradwyo' - Ynys Etws, Nantperis - Dim sylw

Cyngor Gwynedd:

C19/0605/15/LL - 'Addasu adeilad presennol ac anecs i 2 uned breswyl hunan gynhaliol' - Beech Bank 2 Stryd Fawr, Llanberis - Dim sylw.

C19/0603/15/CC - 'Ymgymryd gwaith ar goed a gorchymyn coed arnynt' - 4 Gerddi Padarn, Llanberis - Dim gwrthwynebiad, cyn belled a bod sicrwydd na fydd y gwaith yn difetha'r coed.

8 MATERION ARIANNOL:

1) Yn y Banc ar yr 28ain o Fehefin, 2019

Cyfrif Cyfredol: £16,089.02 Cyfrif Cadw: £5,355.63

9 LLWYBRAU A'R FYNWENT:

Y Fynwent:

Adroddwyd bod tyrchod wedi difrodi o gwmpas rhai beddau. Y Clerc i ymchwilio.

10 Y WEFAN:

Cyflwynwyd nifer o dudalennau ar gyfer Gwefan y Cyngor gan y Clerc. Cytunwyd na fyddai cyfeiriad ebost na rhif ffôn y cynghorwyr yn ymddangos ar y wefan ond y byddai modd cysylltu ac aelodau unigol trwy ebost y Clerc. Roedd y Clerc yn gobeithio y byddai'r wefan yn weithredol erbyn dechrau Medi.

11 ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL:

1. Y Ganolfan:


Adroddwyd bod llwyfan Y Ganolfan bellach yn Eglwys Llanberis ond yn dal ar gael i'w ddefnyddio yn ôl yr angen yn Y Ganolfan.

Mae'r Ganolfan bellach wedi cael piano.

12 CYFARFOD NESAF:

Yn Y Ganolfan, Llanberis. Nos Fercher yr 11eg o Fedi, 2019 am 7yh.

## Cyhoeddi cyfrol newydd




Cyhoeddwyd cyfrol newydd yn ddiweddar sydd yn ffocysu ar natur amrywiol y problemau sydd yn wynebu penaethiaid ysgolion cynradd yng Nghymru yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Teitl y gyfrol yw 'Making Sense of Problems in Primary Headship' (cyhoeddiadau Emerald, 2019) a'r awduron yw Tony Elliott o Ddeiniolen a Gerald Dunning (Prifysgol De Cymru). Mae'r gyfrol yn seiliedig ar gyfweliadau gyda nifer sylweddol o benaethiaid o Gymru dros gyfnod estynedig.

Hon yw'r ail gyfrol i Tony fod yn gyd awdur ohoni. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf, sef 'How Very Effective Primary Schools Work' (cyhoeddiadau Sage) yn ôl yn 2006. Yn ogystal â Gerald Dunning a Tony, awduron eraill y gyfrol honno oedd Yr Athro Chris James a'r Athro Michael Connolly. Prif ffocws y gyfrol honno oedd astudiaeth o ysgolion cynradd yng Nghymru oedd yn cael eu hystyried yn ysgolion effeithiol iawn mewn cymunedau gyda lefelau uchel o dlodi a chyni economaidd a chymdeithasol.

Nodwedd arbennig o'r ddwy gyfrol yw'r ffaith bod yr holl dystiolaeth ymchwil empirig sydd yn sail i gasgliadau'r cyfrolau wedi'i chasglu yng Nghymru.

Cyn ymddeol, roedd Tony yn Uwch Ddarlithydd yn yr Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor ac yn Ddeon y Gyfadran Addysg.

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202


Gwesty Dolbadarn
Llanberis
Ffôn-(01286)-870277

# Un funud fach ...

## DAL AR Y CYFLE

A diwedd Medi'n dod, mae'r nosweithiau'n cau amdanom a'r hydref, os nad y gaeaf, yn nesáu. Darfu'r haf a gwawriodd chwarter olaf blwyddyn arall. Ac yn disgwyl amdanom ym mhen eithaf y chwarter hwnnw mae 2020. A dyna sylweddoli bod ugain mlynedd gyfan wedi mynd heibio ers y disgwyl eiddgar am y flwyddyn 2000 a'r holl sôn a siarad a fu am 'Byg y Mileniwm'. Ugain mlynedd gyfan ers y cyffro mawr o aros am ganrif newydd a'r holl ddarogan gwae am y llanast y byddai'r 'Byg' yn ei wneud i'n cyfrifiaduron a phopeth a oedd yn dibynnu arnynt. Mor fuan y gwibiodd y blynyddoedd hynny heibio. Ac erbyn hyn, rhyfedd yw meddwl nad oedd oddeutu un o bob pump o drigolion presennol gwledydd Prydain wedi eu geni ar droad y ganrif.

O sylweddoli mor gyflym yr hed amser, ni allaf beidio â dwyn i gof eiriau'r Apostol Paul am 'brynu'r amser' (Effesiaid 5:16). Dyna'r geiriau ym Meibl William Morgan; a'r hyn a geir yn y Beibl Cymraeg Newydd yw 'Daliwch ar eich cyfle'. Am fod y blynyddoedd yn carlamu heibio, rhaid prynu'r amser neu ddal ar bob cyfle. Siawns nad yw hwn yn gyngor ardderchog? Wrth gwrs ei fod.

Y mae gwerth gwirioneddol cyngor Paul yn dibynnu ar yr ateb i ddau gwestiwn. Dal ar y cyfle i wneud beth? Ond cyn y medrwn ateb y cwestiwn cyntaf hwn, mae angen gofyn yr ail. Pam fod rhaid prynu'r amser? Oherwydd wrth graffu ar eiriau Paul, mi welwn nad 'am fod y blynyddoedd yn carlamu heibio' y mae'n rhaid gwneud hynny ond, 'oherwydd y mae'r dyddiau'n ddrwg'.

Nid awgrymu a wna Paul ein bod yn prynu'r amser i wneud pob math o bethau neu gasglu pob math o drysorau neu weld pob math o ryfeddodau am fod bywyd yn fyr. Yr hyn a wna yw annog Cristnogion Effesus a ninnau i ddal ar y cyfle i wneud pob math o ddaioni am ein bod yn byw mewn byd sy'n llawn o ddrygioni. Trafod y bywyd duwiol a da y mae dilynwyr Iesu Grist yn ei fyw a wna Paul yma. A'i neges fawr yw nad faint o bethau a wnawn sy'n bwysig o gwbl ond pa fath o bethau. Oherwydd mewn byd o ddrygioni y mae Duw'n galw ei bobl i fyw bywydau da; mewn byd o dywyllwch y mae'n galw arnynt i fod yn oleuni; ac mewn byd o anwiredd y mae'n galw arnynt i dystio i'w wirionedd Ef. 'Felly, gwyliwch eich ymddygiad yn ofalus, gan fyw, nid fel rhai annoeth ond fel rhai doeth. Daliwch ar eich cyfle, oherwydd y mae'r dyddiau'n ddrwg.'

JOHN PRITCHARD

## Pigion Byd Natur

***'D ydw' i heb weld un ers tro byd! Beth amdanat ti?***



A hithau yn fis Hydref, dyma neilltuo mymryn o le er mwyn cadw cwmni i greadur pigog ar y naw, un â choesau hynod fyr (na! nid fi does bosib!). Yn gwbl annisgwyl, tra'n cribinio drwy gylchgronau yn yr iaith Gymraeg, digwyddais ddarllen erthygl, sef 'Yng nghwmni'r draenog' a geir yng nghylchgrawn Yr Eurgrawn Wesleyaidd mis Tachwedd y flwyddyn 1913. Wir i chwi, gant a chwe mlynedd yn ôl, cynhwysir ffotograffau du a gwyn, cwbl glir, 'efo un ohonynt o eiddo Caradoc Mills, ac awdur yr erthygl. Creadur diddorol ydoedd Caradoc Mills. Ymddiddorai mewn seryddiaeth a chyhoeddodd lyfryn yn yr iaith Gymraeg sy'n ymhel â lleuadau, planedau a sêr. Bu i'n Golygydd diwyd, Dafydd Wh., yn Eco'r Wyddfa rai blynyddoedd yn ôl sgwennu'n ddifyr iawn amdano.

Creadur run mor ddiddorol ydyw'r creadur gwadd y mis hwn. Wyddoch chwi bod iddo oddeutu pum mil o bigau i gyd, sy'n ei gynorthwyo i amddiffyn ei gorff rhag gelynion, sef teiars ceir symudol, ac yn sicr moch daear llwglyd a fydd efo eu crafangau'n agor pigau'r draenogod a hynny pan fyddo'r creaduriaid wedi rholio'n belenni.

Y mae ar gael nifer o goelion ynghylch y creadur, e.e. ei fod o'n sugno tethi gwartheg, yn fwytawr wyau ieir ac yn ladratwr afalau a dyf mewn perllannau. Yn ôl William Davies, Talybont, Ceredigion, pan âi ati i 'ddiogelu ei lochesau gyda mwy o ofal nag arferol' byddai hynny'n rhagfynegi tywydd tra-stormus.

Dengys ffosil draenog, 24cm ran ei hyd, a ddarganfuwyd yn Sbaen, ei fod o ran oedran yn perthyn i gyfnod hanesyddol 125 miliwn o flynyddoedd yn ôl. A'i fywyd? Ie! fel draenog yr unfed ganrif ar hugain, hadau, planhigion a phryfed ydoedd ac ydyw ei brif gynhaliaeth.

Dychwelaf at yr hyn a ofynnwyd ar y cychwyn. 'D ydw' i heb weld un, (ie! draenog) ers tro byd! Beth amdanat ti? Ail-ofynnaf, pryd y gwelaist ti ddraenog ddiwethaf? Beth am ddanfon gair atom ni?

Dafydd Guto Ifan










# Ar ben arall i'r lein



Mae'n eithriadol o anodd setlo i lawr yn dilyn inni afael yn y cyfle i gael rhyw wythnos i ffwrdd ar ddechrau'r mis, yn enwedig pan mae eisiau casglu pethau at ei gilydd i wneud rhyw adroddiad ar y pethau di-ri sy'n digwydd yn y byd pysgota. Mae yna rhyw ddywediad yn disgrifo pysgota fel y 'Gelf Dyner' Mae hyn yn ddigon gwir pan mae rhywyn yn cerdded y glannau yn taflu pluen yma ag acw, ar yr adeg yma mae amser i weld yn hedfan a'r hen feddwl yna ond yn canolbwyntio ar daith y bluen ac yn gobeithio bydd rhywbeth o erwau'r pysg yn cydiad. Wel fel yna mae pethau i fod i weithio o leiaf.

Dywedais mis diwethaf na dim ond pysgota oedd ar yr agenda y mis yma, os na fuasai rhywbeth wedi codi ei ben, ond fel y gallwch ddychmygu mi ddaeth rhywbeth arall fy ffordd - a dyma fo:-

Y broblem fawr dwi'n gorfod ymgymryd a hi pan dim ar yr afon yw'r llwythi o e-byst, adroddaidau a llythyrau sy'n dod fy ffordd, wrth gwrs mae'n rhaid delio a nhw er mwyn i'r gymdeithas gadw o fewn y gofynion. Y rhan fwyaf o'r amser mae pethau yn rhedeg yn ddigon di-drafferth, hyn o bosib gan ein bod dros y blynyddoedd wedi gallu prynu rhan fawr o hawliau pysgota lleol, a diolch am hyn gan ein bod yn bresennol ond yn rhentu rhyw ganran fechan o'r dyfroedd sydd ar gael i'r aelodau. Mae trafod a sgwrsio gyda ffermwyr a cyrff cyhoeddus wedi dod a phleser mawr imi dros y deugain mlynedd dwi di bod yn gysylltiedig a'r clwb, yr unig fater sydd wedi dod a diflasdod ddaeth yn sgil problemau llygredd Llyn Padarn. Tydi ddim yn lle yn fan hyn i grafu hen esgyrn, ond fe wnaeth rhai tir feddianwyr droi eu cefnau ar y clwb a penderfynu rhentu eu dyfroedd i glwb o Ogledd Orllewin Lloegr, siom fawr, ond tydi rhywyn yn dygsu rhywbeth pob dydd, yn enwedig pan mae arian yn y cwestiwn.

Ond er hyn i gyd y siom fwyaf yw agwedd Cyngor Gwynedd gyda ei hawliau ar Lyn Padarn. Fedrai ddim yn fy mywyd dderbyn fod corff proffesiynol cyhoeddus yn gallu bod mor ddi-gydymdeimlad a phen galed yn ei trafodaethau. Dwi'n bersonol, gyda swyddogion eraill y gymdeithas wedi cyfarfod wyth gwaith gyda swyddog o'r cyngor, a maent yn methu, neu efallai ddim eisiau wynebu a chydnabod y gwaith mae'r clwb wedi roi i mewn i atal y llygredd a oedd wedi bod yn amharu ar y dyfroedd er 1992. Y gost, i'ch atgoffa unwaith eto o ymladd yr achos yma oedd £300,000. a ffodus oedd i'r holl fro ein bod yn aelodau o Fish Legal a ysgwyddodd y gost. 'Rydym yn dal i rygnu 'mlaen gyda'r trafodaethau. Gobeithio y bydd bosib dod i gytundeb, ond peidiwch a dal eich gwynt gyda'r holl fygythiadau sy'n dod o'r cyngor - y diweddaraf eu bod yn cysidro gwahardd 'sgota am y torgoch. Ym mhle goblyn mae'r criw yma yn byw tybed, gan fy mod wedi bod mewn trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a tydi hyn ddim ar ei rhestr o fwriadau o gwbwl, er fod llawer i beth arall dan ei hadenydd fel yr is-ddeddfau newydd yma gyda pysgota eog, mae ganddynt ddigon o gur pen gyda rheini.

Fel mae'r hen lyn yn dod at ei hun mae yn cynyddu mewn poblogrwydd, tydi hyn a dweud y gwir ddim yn ffafriol at bysgota gan nad oes funud o lonyddwch i gael gyda'r holl ganwio a hwylio (a hynnu i gyd am ddim). Mae'r gymdeithas hefyd yn berchenogion ar hanner y llyn o gwt cwch Glyn Padarn i lawr i Benllyn. Yn ogystal, mae cyfamod o ddim cychod ar hanner arall y llyn, o Graig y Fulfran i Benllyn. Oes rhywyn yn cymryd unrhyw sylw o'n hawlaiu, wel nagoes wrth gwrs. Pwy sy'n cofio'r rhes o fwiau glas o osodwyd ar draws y llyn gan y cyn-berchenogion Dŵr Cymru i ddynodi'r cyfamod yma. Mae'n amlwg fod Cyngor Gwynedd yn llwyr anwybyddu'r sefyllfa. Does eisiau gras yn does. O! ac un bach arall: dwi'n sicr fod trigolion Llanberis wrth eu boddau ar y defnydd sy'n cael o lanfa'r Glyn. Lle handi i aros am ddim. Gweler lluniau a anfowyd imi ar Sul 22 Medi.

Nefodd ti'n mynd yn hen sinic ddywedodd un wrthyf ar y Finiog yn ddiweddar, a dim am y tro cyntaf chwaith, ond mae be ti'n ddweud yn berffaith wir. Wel wrth gwrs dwi 'di bod yn hen sinic erioed, neu fel dywedodd un arall ar ôl gwrando ar rhyw sgwrs roddais ar ysbrydion. Fel hyn aeth hi -'wel wrth gwrs mae o'n credu yn y pethau yna, gan ei fod yn dod o linach o gredwyr o Ddeiniolen' Wel mae huna ddigon gwir hefyd. A mae rhwy stori fach am ysbrydion ar lan y Seiont yn yr hen waith brics yng Nghaernarfon, pethau sy'n amlygu eu hunain ar adegau i bysgtowyr sydd o gwmpas y lle yn ystod oriau'r nos. Pam yn fan honno tybed - wel ble 'roedd y crog-bren yng Nhaernarfon flynyddoedd maith yn ôl, ar y Morfa, dyma leoliad yr hen waith brics. Ond efallai daw cyfle i roi mwy o gig ar y digwyddiadau yma rhyw dro eto.

Dwi 'di crwydro eto oddi wrth y 'sgota, ond rhaid imi gael yr hen bethau yma oddi ar fy mrest neu mi fyddai'n troi a trosi drwy'r nos. Ond yn ôl at y pysgota, sydd wedi cario 'mlaen dros y mis i fod yn eithriadol o dda, ar y Seiont mae mwy o eogiad wedi dod i'r rhwyd, Kevin Morgan, Waunfawr, Stuart Woodward , Ceunant a Malcolm Owen, Caernarfon i gyd gyda dau yr un. John Fraser Williams, Crawia gyda un.Y trymaf hyd yn hyn yw un o tua 9 pwys i Stuart.


Bydd y tymor eog yn gorffen ar y Seiont ar ddiwrnod olaf Hydref. Mae'r rhagolygon yn ardderchog gyda'r niferoedd o eog yn dangos yn y Fenai y mwyaf ers blynyddoedd lawer.

Rhaid unwaith eto clodfori'r llynnoedd sydd wedi pysgota'n eithriadol, dros y mis diwethaf. Cwellyn oedd y lle i fod, gan fod y brithyll ym methu'n glir a pheidio cydiad am y bluen.

Cefais alwad fod dau ar un or cychod wedi cael prynhawn byth gofiadwy gyda 23 o frithyll braf - a cyn i rai ddechrau neidio o gwmpas, mi aeth y cwbwl yn ôl i'r llyn.

Dwi'n meddwl fod hyn yn ddigon mis yma, a tydwi ddim am addo na ond 'sgota fydd y testun yn rhifyn Tachwedd, ond wrth gwrs mi fydd pethau'r pwyllgor blynyddol ar waith y mis hwnw - tydi'r hen amser yma'n hedfan.

Huw Price Hughes



# JIWS

Dyn aml- ddawn oedd Iwan Lloyd Williams. Athro, dyn y ddrama, tad a thaid 'werth y byd', cyfaill triw i lawer – a dyn ffwtbol. Roedd yr holl agweddau yma o fywyd llawn wedi ei amlygu yn ei angladd. Ei ddireidi, ei gyfraniad fel athro a 'chyfaill' plant Brynrefail ac Ysgol y Gogarth. Yno roedd criw Brynrefail, Llanberis, Penmaenmawr ac wrth gwrs pêl-droedwyr yr ardal yma yn ymestyn yn ôl i'r 60'au.Braf hefyd oedd gweld aelodau timau ieuenctid presennol Llanberis yn talu teyrnged.

Pawb a'i atgof a phawb a'i stori.

Cyfeiriodd y Parch. John Pritchard at ddyddiau cynnar y cyw actor yn Nant Padarn, ac am Jiws y gôl-geidwad yn y gemau â ymestynai ar aml glytiau cicio'r pentref. Gan Cai, caed chwip o deyrnged i'w dad yn darlunio bywyd Jiws ar ac i ffwrdd o'r maes pêl-droed. Yr oedd yr hiwmor yn gweddu, yn adlewyrchu'r ymroddiad i sawl agwedd o fywyd – ar wahan i DIY – a nifer yn taeru fod Jiws i'w glywed yn llais Cai.

Canolbwyntiaf ar gyfraniad Jiws i fyd y bêl-gron. Dyna fy nghysylltiad mwyaf i ag o a hynny fwy fel dyfarnwr na chwaraewr. Cofiaf un gêm bwysig draw ym Mhenrhyndeudraeth – a Llanber yn mynd am bencampwriaeth Cynghrair Gwynedd os cofiaf yn iawn. Dwy gêm o'r tymor ar ôl, a Llanberis angen ennill pob gêm. Yr oedd yn bnawn difrifol o boeth – yn y 70a'u uchel. Roedd y ddau dîm wedi newid allan yn yr awyr agored yn hytrach na mentro i'r stafelloedd newid maint stamp oedd yn chwilboeth. Y cae fel haearn Sbaen, a'r dyfarnwr yn gwisgo shorts, pumps, a chrys - T gwyn. Erbyn hanner amser roedd y chwaraewyr a'r dyfarnwr yn laddar o chwys. Sawl blwyddyn yn ôl, a chofiaf stopio'r gêm fwy nag unwaith i'r timau gael llymaid o ddŵr. Hanner amser. Penrhyn 1 Llanberis 3. Dyma rheolwr Penrhyn – Wili Beans – Un tebyg i Jiws oedd Wili, ataf taer dros ei dîm ond cwmniwr gwych wedi'r gêm. Ei fwrdwn oedd y dylswn ohirio'r gêm gan fod 'y gwres yn beryg i'r hogia'. Wel, roedd rhaid i mi ddod a Jiws i mewn i'r drafodaeth. Rhoi cynnig Wili iddo. Doedd gan tîm Penrhyn ddim i chwarae am y tymor hwnnw, ond os cofiaf ar wahan i frwydro am y bencampwriaeth roedd gan Lanber ambell i gêm gwpan ar ôl. Y peth olaf roedd Jiws eisiau oedd gêm ychwanegol a thaith ganol wythnos i Penrhyn ar gyfer ail chwarae gêm wedi ei gohirio. Dyma'r ddau yn dechrau, dau ffrind yn herio'i gilydd. Nid oedd cytuno i fod. A chofiaf eiriau Jiws. " Paid ti a galw hon off Mêt. Mi awn ni mlaen hyd yn oed os bydd rhaid i ni chwarae mewn 'skins'."

Rwyn siwr y buasai wedi gwneud hynny. Ymlaen a ni a Llanberis yn ennill. Ffraeo, dadlau? Byth – a chefais job yn esbonio I Mary pam yr oedd yn 9.30 y nos arnaf yn dod adref o gêm bnawn ym Mhenryn. Cystadleuol ar y cae, cymdeithasu wedyn. Ffordd Jiws – un o'r hogia!

Roedd Jiws wedi cael athro pêl-droed gwych yn Lal Jones. Ymhen dim roedd Jiws yn reolwr y tîm ieuenctid, a gwelai ei brif nod fel cynnal llif yr ieuenctid i'r tîm hŷn. Hogia Llanber yn chwarae i Lanberis – dyna ei gredo di-hafal , ac fe roddodd gychwyn sawl gyrfa lwyddiannus i nifer o chwaraewyr lleol. Aeth a Llanber drwy'r cynghreiriau ac ennill sawl cwpan gynghreiriol ac hefyd Cwpan Barritt a olygai herio timau o gynghreiriau uwch. Beth ddywedai tybed pe wyddai fod C.P.D. Cymru wedi barnu nad yw ei hoff gae ym Mhadarn Road i fyny i'r safon!

Bydd ysbryd Jiws yn crwydro cae Padarn Road beth bynnag ddywed yr F.A!

Cymeriad unigryw oedd Jiws, ac rydym fel ardal wedi colli 'hogyn o'r pentra' roddodd y pentra ar y map. Cwsg yn dawel, gan wybod bydd y storiau amdanat mewn sawl maes yn dal i ddenu gwên. " Ti'n cofio'r gêm na?, y trip na? y sesh na? y reff na? ….. Tybed a wnaiff ei hoff Everton ennill rhywbeth eleni er cof amdano? Mae'n cydymdeimlad dwysaf a'i deulu estynedig.

## JIWS

Hwn oedd Llanbêr hyd erwau – y bêl gron,
bu ôl graen ei dimau
am aros dros dymhorau'n
arwyr oes chwaraewyr iau.

Y Daran oedd hyd erwau, - un y drefn
codi drwy'r cynghreiriau.
Hwn Daran hyd y Glannau,
un yw'r cof oddiar y cae.

O edmygedd rhown ar feddfaen – ei ddawn
oedd haenau fel llechfaen.
Y mae loes, ond awn ymlaen,
" â grea grefft, gŵr â graen."

# MEDAL ARALL



Llongyfarchiadau i Sion Evans, Penisarwaun ar ei gyfraniad i dîm cyntaf criced Bangor ar gipio Pencampwriaeth Uwch Gynghrair Gogledd Cymru. Mae Sion wedi gweithio ei ffordd i fyny y rhengoedd o'r timau ieuenctid, a dyma'r ail bencampwriaeth iddo ennill. Fel batiwr yw cyfraniad arferol Sion, ond fel maeswr mae'n benigamp, gyda dwylo dibynadwy. Yn wir, roedd ei ddaliad yn erbyn Llandudno i dorri partneriaeth allweddol, a chipio buddugoliaeth hanfodol yn un o uchafbwyntiau y tymor. Wedi'r daliad hwnnw cyfeirwyd ato fel Sion Stokes. Pe buasai gŵr camera yn bresennol buasai'n agos i ennill unrhyw gystadleuaeth llun chwaraeon y flwyddyn.

Yr un modd llongyfarchiadau i chwaraewyr â chysylltiad â'r fro a gipiodd bencampwriaeth Adran 4 i G.C. Caernarfon. Dyma ddechrau taith I fyny'r cynghreiriau gobeithio. Un o'r sêr gyda'r bat a'r bêl oedd Ian Morgan, Bethel. Mae o eisioes wedi chwarae ar lefel uwch a bydd ei frwdfrydedd yn gaffaeliad I'r clwb.

# NOSON I'W THRYSORI



Dyna fu profiad Rhys Morris Jones, 6 oed o Glyn Trefor, Bethel. Mae Rhys yn aelod o garfan dan 7 Clwb Bethel. Wedi cystadleuaeth ar Facebook , yr oedd yn ffodus i gael ei ddewis yn un o'r tywyswyr ifanc sydd yn cerdded allan i'r cae cyn y gic gyntaf yn gafael yn llaw y chwaraewyr. Y gêm fawr i Rhys oedd gêm ddiweddar Cymru yn erbyn Azarbajan yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Gyda balchder y camodd Rhys i'r cae yn lifrau Cymru yn gafael llaw y golwr Wayne Hennesey. Er i Gymru ennill o 2-1 gyda pherfformiad siomedig roedd Rhys wrth ei fodd, yn enwedig hefyd yn cael cyfarfod un o arwyr pob plentyn yng Nghymru sef Gareth Bale. Ond, ar ddiwedd y diwrnod y tri phwynt sy'n bwysig. Dywedodd Nia ei fam wrthyf am ddylanwad y profiad ar Rhys. Bellach pob tro mae ef a'i frawd yn mynd i'r ardd gefn i 'chwarae shot', maent yn cerdded allan law yn llaw, canu Hen Wlad Fy Nhadau ac yna dechrau. Da de!

# RHEDEG MYNYDD



Ar ddau Sadwrn yn ystod Medi cynhaliwyd rasys mynydd yn y fro. Cynhaliwyd Ras Flynyddol Elidir o Nant Peris ar ddiwrnod ffafriol i redwyr, ond siomedig braidd oedd nifer y rhedwyr, gyda rhyw gwta hanner cant yn cystadlu. Roedd hyn yn syndod gan fod y ras yn cyfrif (fel y ras olaf) fel rhan o Bencampwriaeth Mynydd Cymru. Er hynny, roedd rhai rhedwyr wedi teithio yno o dde Cymru, a hyd yn oed o Leighton Buzzard, ac wedi mwynhau'r cwrs a'r golygfeydd! Merched lleol ddaeth i'r amlwg, gyda Miranda Grant, Llanberis yn ferch gyntaf ac yn seithfed yn y ras. Maggie Oliver, Dinorwig ddaeth yn gyntaf dros 70 oed.

Y Sadwrn dilynol cynhaliwyd Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Gwledydd Prydain ar lethrau a chrib Moel Eilio, gyda goreuon y byd rhedeg mynydd yn cystadlu. Cafodd y Bencampwriaeth ei symud i Lanberis ar fyr rybudd, a rhaid canmol Arwel Lewis, Bethel a'i dim o gynorthwywyr am sicrhau trefniadau mor drylwyr mewn cyn lleied o amser. Nid yw pob un o'r cystadleuwyr yn sylweddoli'n aml yr holl waith caled a'r ymdrech sy'n sicrhau fod pencampwriaethau o'r fath yn rhedeg mor llyfn a llwyddiannus.

Roedd rasys ieuenctid (bechgyn a merched) i rai dan 17 oed a dan 20 oed yn cychwyn yn y Maenllwyd ac yn dringo i gopa Moel Eilio cyn dychwelyd yr un ffordd a gorffen tu cefn i Blas Garnedd. Ond roedd gwynt eithriadol o gryf ar y llethrau a gwres tanbaid yn creu problemau, a bu'n rhaid cael sylw meddygol i amryw o'r rhedwyr. Gyda diolch i aelodau St John's, Llanberis, paramedics a chriw'r ambiwlans am fod ar alwad mor effeithiol a sydyn.

Roedd ras yr oedolion yn dringo Moel Eilio ac yn dilyn y grib i Fwlch Maesgwm cyn hyrddio'i lawr y cwm yn ol am y cychwyn. Mae'n anodd coelio fod y rhedwr cyntaf - Andy Douglas, enillydd Ras yr Wyddfa, wedi cwblhau'r cwrs mewn 52 munud. Y Cymro cyntaf oedd Mathew Roberts, ddaeth yn seithfed.

Bydd enillwyr y gwahanol gategoriau yn cael eu dewis ar gyfer tim Prydain ym Mhencampwriaeth Rhedeg Mynydd Gwledydd y Byd, sy'n cael eu cynnal yn yr Ariannin.

# AI BLWYDDYN Y TLWS FYDD HI?

Nid yw'r cynghreiriau wedi dechrau cymeryd siap eto gyda Llanrug a Llanberis wedi cael cychwyn derbyniol, ond gemau cyfartal yn britho'r canlyniadau. Hefyd nid yw'r goliau chwaith yn llifo. Er hynny bydd y ddau dîm yn fodlon a'u rhediadau yng nghystadleuaeth Tlws C.P.D. Cymru. Mae'r gystadleuaeth hon i glybiau Haen 3 ac is eisioes wedi cyrraedd y drydedd rownd. Yn y rownd flaenorol cafwyd darbi go iawn rhwng Llanberis a'r Waunfawr. Bydd y Beganifs yn siomedig o fynd allan o'r gystadleuaeth ar giciau o'r smotyn gyda'r sgôr yn 2-2 wedi 90 munud.

Yn anffodus bydd rhaid i'n dau dim lleol deithio ar gyfer y drydedd rownd. Croesi'r bont i herio Bodedern fydd Llanberis. Bu Bodedern a charfan gref y llynedd a bydd angen dipyn o 'ysbryd Jiws' ar Llanberis i gynnal y rhediad. Taith i Lanuwchlyn sy'n wynebu Llanrug, ac efallai gall teulu yng nghyfraith Dafydd Arfon roi dipyn o dips i hogiau Eithin Duon. Er y teithio mae rhywbeth yn dweud wrthyf y bydd gennyf reswm i drafod y bedwaredd rownd yn cynnwys y ddau dîm lleol. Cawn weld.

Ar y lefel yma y tîm mae pawb eisiau ei wynebu ydi Bangor 1876 – hwy yn teithio i Lanrwst gyda llaw. Mae'r tim 'newydd' yma yn dod a chriw da i'w dilyn. Torf o 500 ym Methesda ar gyfer y gêm gyntaf, a thorf o bron i 250 yn Nhalysarn. Mae'r timau yma yn sylwi bod modd gwneud arian pan mae'r 'City Slickers' yn dod draw. £2 i fynd i'r cae, £1 am raglen, stondin y byrgyrs a'r cŵn poeth a cwt te/coffi. Dyna sut roedd hi yn Nhalysarn. Torf dda a gêm dda. OND. Trist oedd gweld llafnau ifanc yn sgwario i fyny i'w gilydd ar hanner amser. Dyma un agwedd gobeithio na ddatblygir pan mae hogiau'r wlad yn herio hogiau'r ddinas.

# Chwaraeon

## Her Rhys Meirion i glybiau pel- droed Llanrug a Llanberis





Mae dau o glybiau pel-droed y fro wedi derbyn her gan Rhys Meirion i ffurfio côr, a'r côr hwnnw i gynnwys nid yn unig chwaraewyr, ond cyn-chwaraewyr a chefnogwyr. Mae rhai ymarferion eisoes wedi eu cynnal, gyda dau ymarfer swyddogol yn Neuadd Ysgol Brynrefail eisoes wedi bod cyn cyhoeddi'r rhifyn hwn. Mae ymarfer arall yn yr ysgol am 6.30 nos Fercher, 9fed o Hydref. Fydd hi ddim yn rhy hwyr!

Un o gefnogwyr Llanrug sy'n cael ei holi am hanes y clwb yw Gwyn Sam Davies, cyn chwaraewr ac aelod o'r pwyllgor a ail-sefydlodd y clwb. Mae Gwyn yn y gysgodfan a adeiladodd fel gŵr ifanc, ac aelod o'r pwyllgor bryd hynny, ar gyfer cefnogwyr hŷn y clwb. Prin ei fod yn sylweddoli ar y pryd y byddai yntau'n cael mantais o'r gysgodfan heddiw.

Ac os nad oes gan Llanrug na Llanberis obaith o ddyrchafiad ar ddiwedd y tymor presennol o ganlyniad i newid rheolau gan Gymdeithas Pel-droed Cymru, mae siawns y gall y côr gyrraedd yr uchelfannau! "Watch out" Côr Meibion Dyffryn Peris !

O.N. Roedd Llanberis yn rhy brysur yn ymarfer i anfon adroddiad na llun i'w cyhoeddi.

## Dechrau tymor newydd i ferched Hoci





Ar drothwy tymor newydd i'r Clwb Hoci Merched Caernarfon maent yn edrych yn ôl ac yn llongyfarch rhai o'r chwaraewyr ifanc oedd wedi perfformio'n arbennig y llynedd.

Derbyniodd Gwen Morris o Gaernarfon ddau dlws, Chwaraewraig y Tymor a Chwaraewraig y Chwaraewyr, yn ystod eu cyfarfod blynyddol eleni gyda diolch arbennig iddi am ei chyfraniad arbennig i'r clwb fel gôlwraig i'r tîm hŷn ac yn hyfforddi'r criw ieuengaf. Dymuna'r clwb bob hwyl iddi yn dechrau blwyddyn gyntaf yn y brifysgol yng Nghaerdydd. Cafodd un chwaraewraig ifanc arall ei gwobrwyo hefyd gydag Elin Pierce Jones yn derbyn y wobr Chwaraewr Ifanc y Flwyddyn a hynny yn ei thymor cyntaf gyda'r tîm hŷn. Llongyfarchiadau i'r ddwy.

Yn ystod cyfarfod Hoci Cymru'r Gogledd ym mis Mai fe bleidleisiodd clybiau Cynghrair Hoci Merched Gogledd Cymru i newid trefn adrannau'r gynghrair o dair i ddwy adran sy'n golygu mwy o dimau ym mhob adran ac felly mwy o gemau. Yn dilyn perfformiad siomedig yn Adran 1 y llynedd bydd Caernarfon yn dechrau'r tymor eleni yn adran 2 gyda'r gêm gyntaf yn erbyn ail dim Ardudwy ddiwedd Medi (ewch i dudalen Facebook y clwb ar gyfer y canlyniadau). Gyda niferoedd trawiadol o ferched ifanc yn mynychu ymarferion ieuenctid y clwb y llynedd mae hi'n braf iawn croesawu criw ohonynt fyny i'r ymarferion hŷn eleni gan obeithio rhoi'r cyfle iddynt chwarae fel rhan o'r tîm.

Mae croeso i unrhyw un ymuno a ni yn yr ymarferion, boed yn brofiadol, heb chwarae ers tro neu heb erioed godi ffon hoci. Mae ymarferion yn cael eu cynnal am 6.30-7.30 i'r criw iau a 7.45-8.45 i'r rhai hŷn ar nos Fercher ar gae pob tywydd Ysgol Brynrefail, Llanrug.